

ECO'R WYDDFA

Rhif 112

MAWRTH 1986

Pris 20c

MWRDWR

AWDURDOD IECHYD GWYNEDD AM LADD Y GWASANAETH AMBIWLANS



Oherwydd fod staff y Gwasanaethau Ambiwllans i dderbyn codiadau cyflog, ac oherwydd fod y Swyddfa Gymreig yn gwrthod rhoi mwy o gyllid i Awdurdod Iechyd Gwynedd i dalu am y codiadau, mae'r Awdurdod yn bygwth cwtogi'n sylweddol y gwasanaeth sydd ar gael i bobl Gwynedd ar hyn o bryd. Ac wrth gwrs, oherwydd mai corff wedi ei enwebu yn hytrach nag wedi ei ethol yw'r Awdurdod Iechyd, yna nid yw'n atebol i etholwyr Gwynedd, ond yn hytrach i weision y Swyddfa Gymreig sydd wedi gosod aelodau'r Awdurdod Iechyd yn eu swyddi. Does dim gobaith felly i'r aelodau rheini o Awdurdod Iechyd Gwynedd wrthwynebu y corff sydd wedi eu gosod mewn swyddi breision. A phobl Gwynedd sy'n gorfod dioddef.

Bu'r ysgrifwr ar y mur cyn belled yn ôl â mis Gorffennaf diwethaf pan gyhoeddwyd dogfen ymgynghorol gan yr Awdurdod Iechyd ynglŷn â dyfodol y gwasanaeth ambiwlans. Roedd y ddogfen yn crybwyll newidiadau yn ardaloedd Amlwch - Llangefni a Phorthmadog - Blaenau Ffestiniog, ond nid oedd sôn am unrhyw newid yn ardal Caernarfon - Bangor. Daeth y bygythiad i orsaf Caernarfon i'r amlwg yn ddiweddar iawn, ac oherwydd hynny, galwyd cyfarfod cyhoeddus yng Nghaernarfon ar nos Iau, Chwefror 20fed. Yn annerch y cyfarfod roedd Dafydd Wigley, A.S. a Tom Jones, ysgrifennydd Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol. Deallwyd oddi wrth y siaradwyr fod bygythiad i'r gwasanaeth wrth-gefn yng ngorsaf Caernarfon o Fawrth 1af ymlaen, ac yn y cyfnod hir roedd bygythiad i gau gorsaf Caernarfon yn gyfan gwbl.

Yng ngeiriau'r Aelod Seneddol - "Gallai'r newidiadau hyn gael effaith mawr ar ardal megis Arfon a'r gallu i gael ambiwlans ar frys i bentrefi o amgylch Caernarfon." Hynny yw, pentrefi bro'r 'Eco'.

Mae perygl i'n gwasanaeth Ambiwllans NI ddiflannu.

Mae un arall o argymhellion yr Awdurdod Iechyd yn gosod straen ddifrifol ar staff y gwasanaeth ambiwlans. Bwriedir i'r staff weithio pedair shift o ddeng awr a dau gyfnod wrth-gefn o bedair awr ar ddeg o fewn pedwar diwrnod! Hynny yw, mewn cyfnod o 82 awr, byddai'r gyrrwr ambiwlans a'i bartner ar alwad am 68 o oriau! Ac y mae swyddogion yr Awdurdod Iechyd yn credu fod hynny'n dderbyniol - nid yn unig i'r gweithwyr eu hunain, ond i bobl Gwynedd sy'n gorfod dibynnu ar y gwasanaeth hwn. Dychmygwch am ddamwain ddifrifol yn digwydd o fewn ein hardal pan fo dyletswydd 68 awr y gyrrwr ambiwlans bron â gorffen. A yw'n deg gofyn i'r gyrrwr hwnnw dderbyn y cyfrifoldeb am ddanfôn claf i Ysbyty Gwynedd? Fydech chi'n teimlo fel gyrru ambiwlans ar ôl gweithio am 68 awr heb fawr o orffwys? Fyddai sefyllfa o'r fath yn deg i'r claf? Mae swyddogion Awdurdod Iechyd Gwynedd yn credu fod y math yma o wasanaeth yn ddigon da fyth i bobl Gwynedd. Ydych chi'n cytuno?

APÊL AM LETY I'R CYSTADLEUWYR

Siomedig iawn fu'r ymateb i Apêl Pwyllgor Llety Eisteddfod Dyffryn Ogwen i gynnig llety i'r plant sydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod. Amcangyfrifir y bydd angen lle i tua 5,000 o blant. Bellach ehangwyd y dalgylch i gynnwys ardaloedd ym Môn ac Eryri. Eisoes mae rhai o bentrefi ardal yr Eco wedi cytuno i roi lle

i'r cystadleuwyr. Os ydych chi'n barod i roi llety i'r plant am noson neu fwy - y dyddiadau yw nos Lun, Mai 26 hyd nos Wener Mai 30 - cysylltwch â Mrs Gwen Morris Jones, rhif ffôn Porthaethwy 715934, neu Mrs Alwenna Puw, rhif ffôn Bethesda 601148.

PENTREF GWIRIONA'R FRO - AM Y DRYDEDD WAITH!




Llongyfarchiadau i bentrefwyr Penisarwaun ar ennill marciau uchaf y ffug-eisteddfod, a hynny am y trydydd tro yn olynol. A diolch, o diolch! yn fawr i Lanberis am wneud gonest mor dda ohoni. Ie, yn anffodus, dim ond dau bentref o blith holl bentrefi gweithgar y fro oedd yn fodlon dod i neuadd Ysgol Brynrefail nos Wener Chwefror 7 i ymgiprys am y teitl 'Penffyliaid y Fro'. Peidiwch â dweud mai pethau trwm a difrifol yw'r unig bethau sy'n mynd â bryd pobl Llanrug, Bethel, Deiniolen, Dinorwig, Brynrefail, Cwm-y-glo a'r Waunfawr y dyddiau yma! Sgersli bilif. Ble oeddech chi?

Ond er mai dau yn unig oedd yn y ras, roedd hi'n ras glasurol. Roedd rhai perfformiadau, a'r gwaith paratoi amlwg oedd wedi rhagflaenu hynny yn haeddu eu gweld a'u gwerthfawrogi gan fwy o gynulleidfa. Bu cyfraniad y beirniaid Rhiannon ac Alun Evans y tu hwnt o werthfawr - yn cyd-weddu'n braf ag ysbryd y noson.

Yn y llun mae Mrs Rhiannon Evans yn cyflwyno Tarian Banc y Midland i gynrychiolwyr Penisarwaun sef Mrs Porter (agosaf at y camera) a Mrs Williams. Tu ôl iddynt mae arweinydd y noson Deiniol Hughes o Gaeathro.

(Canlyniadau a chyfansoddiadau ar tudalen 3)

LLYN PADARN WEDI RHEWI



Ydy, mae llaw y gaeaf 'ma wedi bod digon oer i gloi llyn Padarn. Pan dynnodd ein ffotograffydd y llun hwn o un o domennydd Dinorwig, ddydd Sadwrn, Chwefror 22, roedd haen wen o eira ar rew y llyn.

ECO'R WYDDFA

RHIF 112
MAWRTH 1986

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhyallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION:
Amranwen Lynch, Gwyddfor,
Penisarwaun (Llanberis 870575).

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane
Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis.
(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,
60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug. (C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W.O. Williams 6 Rhyd
fadog, Deiniolien (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS:

LLANRUG: Mrs Gillian Morris,
Annedd Wen, Tal-y-bont.
(Caernarfon 76075)

NANT PERIS: Mrs J.E. Elis, 8
Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis
870 733).

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9
Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
MAWRTH 27

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS FAWRTH
MAWRTH 18
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CYMDEITHAS OWAIN GLYNDŴR

Annwyl Gyfaill,

Mewn cyfarfod ym Medi 1985 yn
Neuadd Glyndyfrdwy, lle cafwyd
anerchiad gan Dr Gwynfor Evans,
penderfynwyd sefydlu cymdeithas
genedlaethol o'r enw 'Cymdeithas
Owain Glyndŵr'. Ei phrif amcanion
fydd:

a) hyrwyddo'r syniad o ddathlu
Dydd Owain Glyndŵr ar raddfa
genedlaethol a lleol ar Fedi 16 gan
mai ar Fedi 16, 1400 y cyhoeddwyd
Glyndŵr yn Dywysog Cymru gan ei
ganlynwyr.

b) Addysgu ein pobl am Owain
Glyndŵr a'i wrthryfel cenedlaethol.

c) Hyrwyddo gosod cofebau i
Owain Glyndŵr mewn llawer rhan
o Gymru.

Gobeithiwn weld sefydlu
cymdeithas gref i sicrhau y
gwireddir y gobeithion hyn. Nid
hyrwyddo hanes Cymru yn unig a
wneir ond hefyd cryfhau a dyfnhau
yr ymwybyddiaeth genedlaethol
heddiw.

Hoffem eich gwahodd yn gynnes
iawn i gyfarfod cyhoeddus i roi'r
Gymdeithas ar ei thraed o ddifri.
Cynhelir y cyfarfod yng Nghanolfan
Owain Glyndŵr, Machynlleth,
bnawn Sadwrn, Ebrill 19 am 2 o'r
gloch. Anerchir gan Yr Athro Rees
Davies, Pennaeth Adran Hanes,
Coleg Prifysgol Cymru,
Aberystwyth ar 'Owain Glyndŵr' a
llywyddir gan y Dr Gwynfor Evans.
Eir ati wedyn i ethol Pwyllgor
Cenedlaethol i arwain y
Gymdeithas.

Os digwydd ichi fod yn swyddog
yn unrhyw fudiad neu gymdeithas a
fyddwch chi mor garedig â rhoi'r
gwahoddiad agored hwn o flaen y
cyfarfod nesaf a gofalu bod
cynrychiolwyr yn dod i Fachynlleth
ar Ebrill 19. A beth am ddechrau
trefnu rhyw ddathliad yn eich cylch
ar Fedi 16, Dydd Owain Glyndŵr?

Yn gywir iawn

Meirion Richards
(Ar ran y Pwyllgor Llywio)
Fflat Tan-y-coed,
Ffordd Caergybi,
Llanfairpwll

CYMREIGIO'R LLYFR TELIFFON

Annwyl Syr,

Mae'n siŵr ichi ddarllen am
ymgyrch y Cyng. O.M. Roberts,
Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd,
i Gymreigio'r Llyfr Teleffon.
Trawodd golygydd yr Herald
Cymraeg yr hoelen ar ei phen yn
ddiweddard pan ddywedodd:

"... cymaint o syndod â diffyg
gwybodaeth ac ansensitifrwydd
anhygoel rheolwr lleol Telecom
yw'r ffaith yr un mor anhygoel na
chlywyd gwich o unman am hyn
o du Cymry Cymraeg Gwynedd."

"Dim ond o gyfeiriad Cyngor
Sir Gwynedd y daeth gair yn
hawlio hunan-barch i'n hiaith ar
ffurf datganiad croyw, cadarn
gan gadeirydd y Cyngor Sir, O.M.
Roberts."

Mae datganiad gan gadeirydd

cyngor neu bwyllgor yn gallu
bod yn ddylanwadol ond peidied
yr un Cymro brwd â chymryd
hynny'n esgus rhag anfon nodyn
personol o blaid pob ymgyrch
dros statws ac urddas i'r
Gymraeg. Ar yr union achos dan
sylw y tro hwn mae enw a
chyfeiriad Rheolwr Rhanbarthol
Telecom ar dudalen gyntaf Llyfr
Ffôn Gogledd Orllewin Cymru.

Fel y dywedodd Guto Ifan
flynyddoedd yn ôl yn y Cymro:
'Buddsoddwch mewn biro'."

Yn gywir iawn,

Dafydd Orwig
Cilcavan,
Bethesda

DIM CANWIO

'Roedd gan Aelodau
Cymdeithas Pysgotwyr Seiont,
Gwyrfa'i a Llyfni ddiddordeb
arbennig yn yr erthygl ynglŷn â
chanwio ar Afon Seiont o'r
Crawia, Llanrug i'r môr. (Eco
Chwefror).

Mae'n wir fod y Gymdeithas
wedi cael rhai trafodaethau ers
peth amser gyda'r Cyngor
Chwaraeon, ac yn y trafodaethau
hyn, yr oeddem wedi gwneud
rhai pwyntiau yn glir i'r Cyngor.

Gwnaethpwyd yn glir fod y
pwyntiau hyn i'w hateb cyn nos
lau, Chwefror 6, 1986. Nid yw hyn
wedi ei wneud.

Felly, hoffai'r Gymdeithas
wneud yn glir i bob aelod a
thirfeddiannwr ar lannau Seiont
nad ydym ni fel Cymdeithas
ddim yn fodlon, fel mae pethau'n
sefyll, i adael i'r Cyngor
Chwaraeon ddefnyddio dwr sy'n
eiddo'r Gymdeithas ar gyfer
unrhyw bleser arall, heblaw
pysgota.

H.P. Hughes

M. Harris

M.M. Jones

(ar ran y Pwyllgor)

GWEITHDY HYFFORDDIANT ATHRAWON YSGOL SUL

Mis Ebrill y llynedd daeth dros 150 o
athrawon Ysgol Sul o'r holl enwadau
at ei gilydd am ddiwrnod o
hyfforddiant. Roedd pawb wedi cael
llawer o syniadau, ac ysgogiad i fwrw
iddi hefo'r gwaith. Gymaint y bu'r
galw fel y trefnwyd i'r un tîm (tîm
Scripture Union) ddod yn ôl i Fangor
Ebrill eleni i wneud gweithdy
hyfforddiant arall. Bydd sesiynau
fesul oedran dosbarth, o'r rhai lleiaf
hyd at 14 oed, a sesiynau dewisol ar
ddrama, cerddoriaeth, crefft ac ati.

Y dyddiad eleni yw Sadwrn, Ebrill
12, 1986, o 10am i 4pm. Bydd yn cael
ei gynnal yng Ngholeg y Santes Fair,
a'r tâl cofrestru yw £1. Derbynnir
enwau ar gyfer y cwrs yn awr.
Manylion pellach gan Delyth Oswy,
Swyddog Datblygu'r Ysgolion Sul
(Ffôn: Bangor 351151, est. 6108-9)

DIOLCH

Diolch yn arbennig
i Gyngor Cymuned
Waunfawr am gymorthdal
o £150.

PWYLLGOR COFFAU SAUNDERS LEWIS

Mewn Pwyllgor arbennig a
gynhaliwyd ar Ionawr 12,
penderfynwyd trefnu Rali
Wlatgarol Genedlaethol i'w
chynnal ddydd Sadwrn, Medi 6,
1986 ar dir Penyberth, Pen
Llyn.

Bydd y Rali yn dathlu hanner
can mlwyddiant llosgi'r Ysgol
Fomio Seisnig gan
arweinyddion Plaid
Genedlaethol Cymru ar y pryd,
sef Saunders Lewis, D.J.
Williams a Lewis Valentine.

Trefnwyd y Rali i gychwyn am
ddau o'r gloch y prynhawn ar dir
fferm Penyberth. Caniatwyd i'r
Pwyllgor ddefnyddio'r safle gan
y perchennog presennol Mr
Owen Owen. Disgwylir y bydd
torf fawr yn bresennol a
gobeithir cael gwasanaeth dwy
seindorf ynghyd â nifer o Gymry
pybyr i annerch y dorf. Yn dilyn
yr anerchiadau gorymdeithir
drwy dref Pwllheli a chloi'r
gweithgareddau ar y Maes yno.

Bydd y Rali hon yn her i'r
Gymry ddangos eu gwlatgarwch
a'u teyrngarwch mewn dyddiau
anodd pan fo cenedlaetholdeb
yn cael ei arwain ar gyfeiliorn.
Bydd y siaradwyr yn cynnwys
aelodau blaenllaw o Blaid
Cymru, Cymdeithas yr Iaith,
Adfer a bydd mudiadau
gwlatgarol eraill yn cael eu
cynrychioli hefyd.

Trefnir bysiau o bob cwr o
Gymru - Caerdydd, Abertawe,
Caerfyrddin, Llanelli ac
Aberystwyth. (Cyhoeddir
manylion llawn yn nes i'r
achlysur).

Yn dilyn llwyddiant y Rali yn
Nhryweryn ar Dachwedd 7,
1985 edrychir ymlaen yn
hyderus at Fedi 6 eleni.

Byddai'r Pwyllgor yn dra
diolchgar am unrhyw
gyfraniadau ariannol tuag at y
gwaith o drefnu a hysbysebu'r
Rali. Cysyllter â Mr Richard
Glyn Jones, Cartrefle,
Pontllyfni, Caernarfon.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu
rhoddion hael tuag at gostau
cynhyrchu'r 'Eco'.

£5 - John V. Morris, Rhianfa,
Deiniolen; Nia a John, Minffordd,
Ffordd Tŷ Du, Llanberis.

£2 - Mr a Mrs Thorman Jones, 14
Tai Caradog, Deiniolen; Mr a Mrs
Alun Roberts, 13 Maes Gwylfa,
Deiniolen; Jennifer Ellis, Nant
Peris; Mr Robert Jones, 7 Maes
Eilian, Dinorwig; Mrs Enid
Roberts, 56 Maes Padarn,
Llanberis.

£1 - Ceinwen Evans, 15 Hafod
Olau, Deiniolen; Di-enw, Bethel.

Cefnogwch ein

Hysbysebwyd

Y FFUG-EISTEDDFOD

Ar ôl tair awr a hanner o gystadlu brwd a llond bol o chwerthin – dim ond naw marc oedd yn gwahanu pentrefi Penisarwaun a Llanberis. Ein diolch i'r ddau dîm am gystadlu ac am ymgymeryd o ddifri â'r gwaith o wneud ffyliaid ohonynt eu hunain er difyr hynny o gynulleidfa (plant a merched yn bennaf) a fentrodd oddi wrth eu setiau teledu i'w cefnogi.

Ein diolch diffuant hefyd i Miriam Hughes, 'Rallt Deg, Cwm-y-glo am drefnu'r cyfan.

Cafwyd cystadlaethau da iawn, nid yn unig ar y llwyfan ond hefyd yn yr Adran Cloff o Grefft. Pwy, er enghraifft, wedi gweld yr anrheg Folant buddugol (ie, ryw'n sôn am y croen oren, musus) sy'n debygol o'i anghofio?

Dyma'r canlyniadau:

Cystadlaethau Llwyfan:

Sioe Ffasiynau: 1. Penisarwaun, 2. Llanberis, 3. P'waun. **Cryg Adrodd i gyfeiliant catâr:** 1. P'waun, 2. Ll'beris, 3. Ysg. Crugrefail. **Grŵp Roc Pensiynwyr:** 1. Taid a Nain, P'waun, 2. Ll'beris, 3. Pendoncwr P'waun. **Deialog – Sut i beidio ymweld â chlaf:** 1. Clinic Ll'beris, 2 a 3. P'waun. **Consurio:** 1. Ll'beris, 2. P'waun. **Perfformiad Meddw:** 1. P'waun, 2. Ll'beris. **Ffilm ddistaw:** 1. P'waun, 2. Ll'beris. **Cystadleuaeth Barddonllyd a Llethol:** **Cerdd 'Streic yr Athrawon':** 1. Ann Ifans, P'waun, 2. Nant Roberts, P'waun, 3. Phyllis Ellis, P'waun. **Parodi:** 1. Ann Ifans, P'waun, 2. Dafydd Williams, Bethel, 3. Ll'beris a P'waun. **Gwynfyddau Cyfoes:** 1. Eurwyn Jones, Ll'beris, 2. Un o B'waun, 3. Jane Jones, Ll'beris. **Y Bedol Ryddiaith (llythyr caru oddi wrth un anifail i'r llall):** 1. Ann Ifans, P'waun, 2. Ceri Pierce, Ll'beris, 3. Phyllis Ellis, Rhosfair, P'waun, Delyth, P'waun. **Adran Cloff o Grefft – anrheg foliant:** 1. Nant Roberts, P'waun, 2. Jane Roberts, Ll'beris, 3. Pawb yn Clinic, Ll'beris. **Cartŵn:** 1. Mair Jones, Ll'beris, 2. Nant Roberts, P'waun, 3. Alwyn Jones, P'waun. **Adran Bro'r Eco ar Wasgar – deg rheswm pam na ddof byth yn ôl i fyw i fro'r Eco:** 1. Mair, Ceri, Marian, Ll'beris, 2. Ann Ifans, P'waun, 3. Jane Jones, Ll'beris. **Llinell Goll:** 1. Rhiannon Pritchard, Ll'beris.

Dyma'r llythyr buddugol a enillodd i Dic Draenog y Bedol Ryddiaith: – Llythyr caru oddi wrth un anifail i'r llall.

Tin Clawdd
Tan y Wenallt
Drws y Coed
Chwefror 29

Fannwyl daneddog Hannah Hirglust,

Saetha fy mhigau i fyny'n syth bin swrth weld dy lun yn fisol yn Llais Ogwan – papur bro yr How Gets. Welis i' rïoed bâr o glustiau hirfain fel rhai ti – clustiau bendigedig i sibrwd geiriau sebonllyd. Rydw i wedi gwirioni hefo dy ddannedd gwyn, gwyn Colgetaidd ti – maent mor amlwg ar dy wyneb tlws. Mae gen i 36 o ddannedd hefyd – rhai bach miniog yn brathu i'r asgwrn bob amser!

Ffeintiais un bore wrth dy weld yn loncian yn osgeiddig hyd lonydd bro Wil Cwac Cwac. Roeddet yn f'atgoffa o Raquel Welsh yn dy siwt felfed frown a' th sgidiau Nike ysgafn clauerwyn. Roedd fy nghorff yn binnau mân i gyd! Er nad wyf yn un chwim fel ti ar droed – mae'nghalon fach yn cyflymu fel milgi brych wrth feddwl am

dy gorff lluniaidd. Does dim amdani felly ond imi gropian fel coblyn i' th weld i gyrrion Pesda a mynnu dy bawen felfed mewn glân briodas yng Nghapel Pendref Bangor.

Fe gychwynnaf 'Un Nos Ola Leuad' – byddaf yn siŵr o gyrraedd cyn 'Steddfof Llew Llechan. Mewn chwinciad fe gawn lwyth o 'sgwarnogod bach pigog a llwyth o ddraenogod bach chwim. Yna fe gânt gystadlu yn y 'Steddfof a chael 'Steddfof i'w chofio yn 'Pesda.

Bwyta do lond dy fol rŵan o letys a dahlias Tal Cae – a chad y gwâl yn foethus.

Llawer o bigau pigog.

Dic Draenog Eco'r Wyddfa

Parodi Aberdaron

BAE COLWYN:(ynteu Colwyn Bay!)

Pe bawn yn iau a nwyfus

Ac angerdd lond fy nghôl,

A phawb yn gwgu arnaf

A'm galw i yn ffôl,

Mi heriwn pob Awdurdod

A chyfraith a threfn gwlad,

A mynnu cydraddoldeb

I iaith fy mam a 'nhad.

Pe bawn yn iawn a nwydus,

A'm gwaed yn berwi'n boeth,

A'm calon fach yn gwaedu

Wrth weld toriadau noeth

Nid tewi wnawn bryd hynny

A phlygu i gyfraith gwlad

Ond mynnu cydraddoldeb

I iaith fy mam a 'nhad.

Pe bawn yn iau a mentrus

Tu hwnt i wg a sen,

A'm cri yn ôl y patrwm

A'i hangerdd – nid ar ben,

Rhown obaith i'r Hen Bobol

Sydd yng Nghartrefi'r wlad

Gael siarad â'r gweinyddwyr

Yn iaith fy mam a 'nhad.

Yna, fe gâi'r Cymry

Yng nghri' Sacsonaidd wynt,

Siarad iaith y Walia

A wybu'u teidiau gynt

A bloeddiwn â'r hen angerdd

A dathlwn drwy y wlad,

Am ennill cydraddoldeb

I iaith fy mam a 'nhad.

Nid un o Fôn
(ffugenw)

GWYNFYDDAU CYFOES

A phan welodd Maggie'r etholwyr aeth i'r Stiwdio Deledu ac wedi iddi ymbincio daeth y camerau ati.

A hi a fynnodd ar bawb wrando arni gan ddywedyd:

Gwyn eu byd y tlodion yn y deyrnas canys mae eu pensiwn yn werth llai bob dydd.

Gwyn eich byd swyddogion

Llywodraeth Leol. Canys bydd lle i chwi yn y Buncars.

Gwyn eu byd y di-Gymraeg. Canys hwy a gânt swyddi yng Ngwynedd. Gwyn eu byd y rhai sydd arnynt newyn a syched am addysg. Canys ni roddaf ragor o arian at gyflogau'r athrawon.

Gwyn eu byd y di-waith. Canys cewch gyrff cryf wrth reidio beiciau. Gwyn eu byd y prynwyr tai. Canys hwy a dâl logau uchel.

Gwyn eu byd y rhai a hwyliodd y Belgrano. Canys lladdwyd hwy er clod a bri i mi.

Gwyn eich byd pan ych erlidiant ac y dywedant bob drygair yn eich erbyn er fy mwyn i. Canys gofynnaf am eich ymddiswyddiad.

Byddwch lawen a hyfryd. Canys mawr yw eich baint yn byw mewn gwlad lle'r wyf fi yn tra-arglwyddiaethu arni.

Denis y Tower

STREIC ATHRAWON

"Pa eisiau amgenach,"

Medd mam a 'nhad sawl tro;

"Na swydd ddiogel, barchus

Fel athro yn y fro,

Ymlafnia di'n yr ysgol

Mynn lefel 'O' ac 'A'

Ac yna radd Prifysgol

A 'marfer dysgu da.

Meddylia am y gwyllia'

Tri mis o'r flwyddyn gron!

Gweithio'n frwd am naw mis

O naw tan bedwar – bron!"

"Ond mam a 'nhad eisteddych

A gwrandwch ar fy nghri

'Rwy'n dysgu 'nawr ers cantoedd

A 'run yw 'nghyflog i.

Rheolwr banc yn gwgu

A gweiddi arnai'n groch

Am fod fy nghyfrif cadw

Yn amal yn y coch.

Gwell wir fuasai swyddi

Fel hulwr, nyrs, M.P.,

Gan hwy mae'r holl gompiwtars

Does 'run o'r rhai'n gen i!

"Pe bawn yn dipyn talach

Fe awn yn blismon gwlad

Ac ennill fy mywoliaeth

Yn gwarchod yr hen stâd.

Cawn fwy o gyflog cofiwch

Nag athro graddfa tri

A chyn fy mod yn ddeugain

Ymunwn â'r C.I.D.

Ac yna cael ymddeol

Ar bensiwn gwerth ei gael,

A byw yn dra chyffyrddus

Ar bwrs Llywodraeth hael."

Does dim amdani felly

Ond STREICIO a chosbi'n plant

A mynnu codiad tecach

Un mwy na saith y cant.

Mae'n ddrwg iawn gennym blantos

Nid ym yn hoff o STREIC

Ond fel y dwedodd Tebbitt,

Mae'n hyn, neu brynu beic.

A gadael gwlad Britannia

I decach gwlad na hon,

Ac yno flasu cyflog

A'n gwna yn athro llon.

A phwy fydd yma wedyn,

I ddysgu 1, 2, 3?

Dim athro, dim darlithydd

I'ch helpu i gael digri.

Wel, hitiwch befo 'mhlant i,

Angof fydd addysg toc

Y cyfrifiadur welir

Yn llywio'r wlad fel cloc.

Mil wfft i Keith a Magi,

Anghiwch raen a dysg

Un gwasgiad ar y botwm

A 'chydig fydd fyw yn ein mysg.

N.U.T.

Gwynfyddau Cyfoes – yr ail, a gafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad.

Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn y banc oherwydd eiddynt hwy fydd 'bac-pê' anferth.

Gwyn eu byd y rhai sy'n Gweithredu oherwydd cânt hwy eu bacio gan yr Undeb.

Gwyn eu byd y rhai Militant oherwydd cânt hwy dynnu pawb yn eu pennau a gostwng morâl eu cydweithwyr fwy fyth.

Gwyn eu byd y rhai sy'n byw ar datws popty a photos maip oherwydd cânt hwy eu digon o stêc a samon cyn bo hir.

Gwyn eu byd y rhai sy'n mynnu awr ginio oherwydd cânt hwy funud o lonydd o bosib.

Gwyn eu byd y rhai sy'n medru dioddef gweld Sir Keith yn methu ateb cwestiynau hawdd oherwydd cânt hwy weld hwn eto yn ymddiswyddo – gyda lwc.

Gwyn eu byd yr Undebwyr oherwydd cânt hwy eu galw'n Athrawon yn hytrach na "glorified child-minders", a chânt gyfle i wneud eu priod waith, sef dysgu plant, pan fydd y miri drosodd.

Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd gan brifathrawon stiwpid yn achos cyfiawnder oherwydd eiddynt hwy fydd Swyddfa Prifathro, ddydd a ddaw, ond iddyn nhw ddysgu ysgwyd llaw yn iawn.

Gwyn eu byd pan fo rhieni yn eich beio am beidio mynd a'u plant i Ddyffryn Ogwen, ac yn dweud pob math o ddrygair celwyddog yn eich erbyn oherwydd cewch ddigon o gerdded 'Steddfofau' eto. Llawnhewch a gorfoleddwch oherwydd mae eich gwobr yn fawr yn U.C.A.C; felly yn wir y cewch fod yn Drefnydd Cynadleddau neu'n Ysgrifennydd Sirol fel y slafiodd llawer yn ddi-ddiolch o'ch blaen chwi.

Y Llywydd Cenedlaethol i'r athro bach sy'n dal ar raddfa la'c yn dal i fyw mewn gobaith.

EMYR JONES
PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI
GWAITH
INSIWLEIDDIO
44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

W.H. JONES
TRYDANWR
Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS
FFÔN:
LLANBERIS 871470
Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati

OSMOND SHAW
DEINIOLEN
Gwerthu
a thrwsio
Teledu Lliw
Newydd ac Fel
Newydd
GWASANAETH
ATEB
FFÔN 24 AWR
LLANBERIS 870545

D.LL. OWEN
1 BRYN AFON
TERRACE,
LLANRUG
FFÔN
C'FON 76699
Cludo Llwythi
Bychan a Chlirio
Safleoedd
Llwythi 3 Tunnell
Hefyd Trin Gerddi a
Thorri Gwair

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

DYRCHAFIAD: Llongyfarchiadau i Malcolm Allen ar gael ei ddewis i garfan tîm pêl-droed Cymru. Gobeithiwn y gwelwn y cap llawn cyntaf yn dod i'r pentref. Ar hyn o bryd mae Malcolm yn chwarae gyda Watford. Bydd tîm Cymru yn chwarae yn erbyn Saudi Arabia.

CLWB SNWCER: Bu Pwyllgor y Clwb Snwcer yn ei gyfarfod nos Lun, 17 Chwefror yn ystyried cais oddi wrth ferched ieuainc y pentref sy'n pwyso ar y Clwb i neilltuo un noson yn wythnosol ar gyfer defnyddio adnoddau'r Clwb gan ferched yn unig. Penderfynodd y Pwyllgor ganiatáu'r cais o gofio cyn lleied y darpariadau sydd i'w cael yn ein pentref ar gyfer adloniant i ferched a chymaint yw apêl gynyddol snwcer ymhlith merched yn ein dyddiau ni.

Yn dilyn mawrfrydedd y Pwyllgor yn hyn o beth, bydd y Clwb yn agored i ferched 13 mlwydd oed i fyny bob nos Fercher am gynnod arbrol o dri mis, gan gychwyn am 6.30 pm nos Fercher, 5 Mawrth. Trefnwyd i'r Mri David Wyn Jones a Fred Thomas fod yn bresennol ar ran y Clwb i hyfforddi'r merched a bydd aelodau o'r Panel pentrefol wrth law i gynorthwyo yn ôl y gofyn.

Ynghlwm wrth bob braint y mae cyfrifoldeb! Disgwylir i'r merched sydd am fanteisio ar y trefniant uchod dalu tâl cofrestru o 50c ar 5ed Mawrth, ac ar y noson honno hefyd dosberthir rheolau'r Clwb i'r merched. Amod bendant cydweithrediad a chaniatâd caredig y Pwyllgor yw y perchir y rheolau hynny gan bawb a ddaw i'r Clwb.

CYFARFOD AGORED: Nos Fercher, 5 Chwefror daeth tua hanner cant o ieuenctid y pentref i Gyfarfod Agored a gynhaliwyd yn y Ganolfan. Roedd y Cyfarfod wedi'i drefnu gan banel o bentrefwyr dan lywyddiaeth Mr Gwyn Parri, Cynefin, i drafod awgrymiadau gan y bobl ifanc er hyrwyddo cyflwr eu horiau hamdden. Canmolodd Mr Gwyn Parri y bobl ifanc am y modd cytbwys a chyfrifol y cyflwynwyd a thrafodwyd ganddynt nifer o awgrymiadau y bydd y Panel yn gweithredu arnynt.

Bydd y Panel yn adrodd i'r Cyfarfod Cyhoeddus sydd i'w gynnal yn Neuadd y Ganolfan am saith o'r

gloch nos Fawrth, 4 Mawrth, ar y cynnydd a wnaed ers y Cyfarfod Cyhoeddus diwethaf. Cofiwch am y dyddiad a gwnewch ymdrech arbennig i ddod i'r Cyfarfod.


SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Chwefror 3ydd dan arweiniad Mrs Rita Parry Jones, y llywydd. Darllenodd Mrs Jones y llythyr misol a darllenwyd y cofnodion gan Mrs M. Williams, yr ysgrifennydd. Croesawodd Mrs Jones y wraig wadd sef Miss Marian Rees. Cafwyd noson ddifyr gyda Miss Rees yn dangos sleidiau o Barc Cenedlaethol Eryri. Diolchwyd iddi gan Mrs Rita Parry Jones. Rhoddwyd y te gan Mrs H.J. Thomas a Miss Nancy Roberts. Enillwyd y raffl gan Miss Kathleen Jane Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mawrth 3 pryd y cynhelir swper i henoed Deiniolen a'r Cylch gyda pharti Blodau'r Grug, Llanrug yn diddanu.

MARWOLAETH: Ar y 10fed o Chwefror bu farw Nell Owen, 3 Bro Deiniol (Macpelah House gynt) yn 81 mlwydd oed. Bu'r angladd yn Amlogfa Bangor ar y 14eg o Chwefror. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis. Trefnwyd yr angladd gan Mr E.W. Pritchard, Llanberis. Y galarwyr oedd Mr a Mrs Arthur Owen (Caerdydd), Mr a Mrs Richard Owen (Llanberis), Mr a Mrs J.A. Williams, chwaer a brawd yng nghyfraith; Mr Glyn Harris; Mr a Mrs John Morris; Mrs E.M. Watkins; Mr John Thomas; Mrs Margaret (Bangor). O blith y cymdogion, Mrs M. Jones, Mr Emlyn Griffiths, Mrs M. Williams, Mr G. Williams.

: Dydd Sul, Chwefror 9 yn dawel yn ei chartref bu farw Mrs Jennie Williams, 14 Tai Caradog yn 83 mlwydd oed. Roedd yn un o aelodau hynaf Disgwylfa, bu'n ffyddlon iawn yn ei hamser. Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn y cartref ac yn ddiweddarach daeth cynulleidfia niferus i'r gwasanaeth yn Amlogfa Bangor. Gwasanaethwyd gan y Parch Trefor Lewis. Daethpwyd â'r llwch i fynwent Macpelah.

DIOLCH: Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Jennie Williams, 14 Tai Caradog ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth sydyn ac annisgwyl. Diolch am y llu cardiau a llythyrau a dderbyniwyd. Rhoddwyd yr arian i Blas Pengwaith. Diolch arbennig i'r Parch Trefor Lewis, hefyd Mr M. Pritchard a Gwynfor nid yn unig ar ddydd yr angladd ond ar hyd y misoedd diwethaf.



Ai bws y Rhiwen a redai o Ddeiniolen i Gaernarfon yw hwn, ynteu un o gerbydau'r Crosville? William Arthur Williams sydd ar y chwith, mab y diweddar John Edward Williams, Rhyd y Fwch, a fu'n glochydd yn Llanddeiniolen am dros hanner can mlynedd. Dywedir iddo gladdu tua phymtheg cant. Dyddiad y llun yw 1920. A oes rhywun yn adnabod y gweddill? (Y darlun gan Mrs Ann Ellis, nith i William Arthur Williams).

Enillwyr y Clwb 200 am fis Chwefror: (1) £20 Mrs J. Davies, Stryd Caradog, c-o John; (2) £15 R. Arfon Lewis, Waen Fro, Deiniolen; (3) £10 Mrs Carys Owen, c-o W.O. Williams, 6 Rhydfadog.

Dymuna Ceinwen Evans, 12 Hafod Olau ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau a phob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI: Eleni cynhelir yr Eisteddfod ar nos Wener a phnawn Sadwrn, 24 a 25 Hydref. Bu'r tri Is-bwyllgor yn brysyr yn paratoi rhaglen amrywiol a chwaethus a gobeithir cwblhau'r gwaith hwnnw erbyn diwedd Chwefror. Eisoes cydsyniodd Mr T.J. Williams, Llanrwt i feirniadu'r cystadlaethau cerddorol a

Parhad ar y dudalen nesaf

TÎM DARTIAU MERCHED Y BWL



Bydd y genod yn cyfarfod bob nos Fercher i chwarae dartiau ac i godi arian trwy gynnal raffl. Yn ystod y flwyddyn casglwyd dros £500. Penderfynodd y merched rannu'r arian rhwng gwahanol fgudiadau yn y pentref. Rhoddwyd £60 yr un i dîm pêl-droed ieuenctid, y Guides a'r Clwb Codi Pwysau Pwer; £45 yr un i'r Seindorf Ieuenctid, y Seindorf Hŷn, y Clwb Ieuenctid, Yr Ysgol Feithrin, Eisteddfod Gwaun Gynfi, ac Ysgol Pendalar; rhoddwyd £52 ar gyfer parti'r pensïynwyr. Llongyfarchiadau i'r merched am y gwaith da a phob llwyddiant i'r dyfodol.

**Cefnogwch
Ein
Hysbysebwyrr**



STRYD FAWR, DEINIOLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

HEFYD YN SIOP

FFYN A CHERRIG

STRYD FAWR, LLANBERIS

**IEUAN
WILLIAMS**
Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

**MERCHED,
DYNION, PLANT!**
I gael torri a thrin
eich gwallt
YN EICH CARTREF
cysylltwch â
**CHERYL
WARD**
Mobile Hairdressing
**9 Porth Gogledd
DEINIOLEN**
Ffôn: Llanberis
870911
i drefnu amser



Dyma lun Ysgol y Babanod, Gwaun Gynfi, Deiniolen. A oes rhywun yn gwybod pa flwyddyn a phwy yw'r plant? Tybed ai dosbarth Miss Wyn, Dinorwig ydyw?

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Yn ein cyfarfod mis Ionawr llywydd y noson oedd Mr J. Eirlys Williams. Y Gŵr gwadd oedd y Parch Eryl W. Blainey. Cawsom hanes y Parch Harri Parri ac yntau yn teithio ar hyd Clawdd Offa. derbyniodd Mr Selwyn Griffith, Bethel y gwahoddiad i feirniadu'r adrannau Adrodd a Llenyddiaeth. Mae'r Is-bwyllgor Celf a Chrefft ar fin cwblhau eu gwaith hefyd a gellir cyhoeddi'n awr mai yr un cymwynaswyr â'r llynedd a fydd yn beirniadu gwahanol gystadlaethau'r Adran honno eto eleni.



Iwan Williams a enillodd yr ail wobwr ym Mangor.

Y SEINDORF: Ar Chwefror 8 recordiwyd y Seindorf yn Ysgol Brynrefail ar gyfer cystadleuaeth Radio Wales. Cawn eu clywed fore Sul, 13 Ebrill.

Llongyfarchiadau i Iwan Williams, Rhes Vaenol am ennill yr ail wobwr ym Mangor ar y 'Slow Melody'. Dim ond un marc oedd rhwng y cyntaf a'r ail. Hefyd llongyfarchiadau i'r Pedwarawd dan 12 oed am ennill yr ail wobwr.

Mwynhawyd y sgwrs a'r ffraethineb yn fawr. Soniodd hefyd am yr holl garedigrwydd a gafodd y ddau tra'n teithio, a'r mwyniant o gael eu croesawu yn ôl. Diolchodd i bawb am eu cyfraniad hael at Ward Macmilan, yn arbennig felly i Ieuan ac Iolo. Ffordd Deiniol am gasglu dros £100. Diolchwyd i Mr Blainey gan y llywydd a hefyd gan un o aelodau'r Gymdeithas trwy'r penillion canlynol a gyfansoddodd i'r achlysur yma.

Lle bu gormes a rhyfel ar Clawdd Offa
Fe gerddodd dau weinidog yr haf diwetha
Y daith yn hir a'r traed yn boenus:
Serch hynny'n hapus ac eitha hyderus:
O gyflawni'r dasg ddewiswyd ganddynt
Heb siomi'r noddwyr a gredai ynddynt
I chwyddo'r gronfa er lles y truaen
O gleifion Gwynedd yn Ward Macmilan
Syfrdanol fu eu llwyddiant
A teilwng ynt o'n moliant
Eich hymdrech a'ch gorchest glodforwn
Am noddwyr i'r gronfa ymfalchiwn
Am Samariaid fel y rhain gorfoleddwn
I bawb, yn wresog a gwylaidd,
Diolchwn.



Pedwarawd dan 12 oed: Dylan Williams, Eilir Williams, Dylan Cole Jones, Julian Joannidi.

O'n blaen fe welwn Blaini
Barchus ŵr, heicar o fri
Fe gerddodd hwn a'i gyfaill Harri
Ar ben Clawdd, o Gasgwent i Gonas Ci.

MERCHED Y WAWR: Cafwyd noson ddifyr a chroesawgar iawn nos Fercher 12 pan wahoddwyd ein cangen ni i Fethel.

Roedd Miss Sophie Parry-Jones yno yn sôn am ddatgelu cyfrinach henebion. Roedd nifer dda o'r aelodau wedi dod â'u trysorau gyda hwy. Aeth rhai o'r merched oddi yno yn galonnog dros ben, eraill a'u 'pen yn eu plu'. Na hidiwch ferched, cawsom wledd ardderchog a digon o hwyl.

Llywyddwyd cyfarfod mis Chwefror gan Mrs J. Eirlys Williams. Y wraig wadd oedd Mrs Maud Williams, Caernarfon. Cawsom hanes 'Dawnsio Gwerin', sut y bu iddo ddechrau a datblygu yn raddol, ei golli am gyfnod, ond ar hyn o bryd yn ffynnu a llawer dawns newydd wedi eu creu.

Bu hwyl ar y dawnio ar ddiwedd y cyfarfod. Diolchwyd i Mrs M. Williams gan y llywydd a Mrs Gwen Hughes.

Nos Fawrth 17 noson gartrefol o ganu a chawl. Cofied pawb ddod â dysgl a llwy efo nhw. Mrs Gwen Hughes fydd yn trefnu gyda'r canu.

Y CARNIFAL: Os oes merched o Safon 4 Ysgol Gwaun Gynfi a Dosbarth 1 yn Ysgol Brynrefail, Llanrug eisau cael eu dewis i fod yn Frenhines y Carnifal rhwng eich enwau i Mrs J. Jones, 1 Maes Gwylfa neu Eileen, 5 Rhes Victoria gyda 50c. Hefyd os ydych eisau cael eich dewis i fod yn y Cwrt genethod Dosbarth 1,2,3 Ysgol Gwaun Gynfi gwnewch yr un fath erbyn Mawrth 1af.

Ar Chwefror 15 bu Disgo yn Neuadd y Ganolfan a hoffa bwyllgor y Carnifal ddiolch i bawb a roddodd eu hamser yno ac i bawb a gefnogodd i wneud y noson yn llwyddiant.

Mae Noson Goffi yn yr ysgol Mawrth 7 ac yno fe fydd Brenhines y Carnifal a'r Cwrt yn cael eu dewis. Bydd elw'r Disgo a'r Noson Goffi yn mynd at y Carnifal.

ER COF AM
John David Evans, Clwt-y-bont
(sef Jioni'r lard)

Pêr ei dôn fu y Prydydd - a feddai
Holl foddion awennydd,
Daeth pill neu benill beunydd
O'i law deg i oleu dydd.

Garw ei wyro i'r gweryd - arddelodd
O'i fodd drwy ei fywyd
Ei fwyn fro fynnai ei fryd
E' welodd rin ei golud.

O'r cwynfan ym Mro Cynfi - a'r alaeth
Wedi arwyl Sioni,
Yr hynod fu'n cofnodi
Yn gynnes ein hanes ni.
ROBERT HENRY PARRY
Caernarfon

GWEUNDIR YR WYDDFA

'Dyw'r Wyddfa ddim fel 'roedd hi, yn yr hen amser gynt,
Yn ymestyn â balchder, a'i phen yn y gwynt;
Mae'r estron yn tramwy hyd erwau ei chrib,
Yn hagru ei harddwch, mor sydyn â'r wib!

Mae'r tyddynnod yn adfail, yn 'sgerbydau i'r mēr,
A'r hen gannwyll frwyn, wedi llosgi ei gwēr!
Ond mae'n llonni fy nghalon i weld defaid Stan,
Yn pori y gweundir, a'u bref ym mhob man!

Mae rhywbeth yn aros, - sef y bugail a'i gi,
Brân dyddyn a chadno, gylfinir a'i gri;
A mil o atgofion, o lafur a siom!
Hen gyfaill y gweundir, mae 'nghalon yn drom!

Wrth weld yr holl estron yn hagru dy swyn,
Hen le cysegredig i'r defaid a'r wyn;
Ac yntau y capel, a'i dalcen i'r gwynt,
Lle bu eneidiau y 'cewri' yn crwydro ar hynt!

Ar ddechrau y flwyddyn, mi ganaf fy nghân,
Gan obeithio gweld fflamau yn dawnio'n y tân!
Nid wyf ond rhigymwr, un syml di-nod
Yn ceisio creu geiriau, i ganu dy glod!

I ddeffro y werin, ardalwyr y fro
I agor cadwynnau a roddwyd dan glo
Gan estron o Loegr i'n cadw mewn trefn
Rhaf cas awdurdodol, a di-asgwrn-cefn!
JOHN V. MORRIS
Rhianfa
Deiniolen

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs J.E. Ellis, 8
Glanrafon (870733)

GWELLA: Balch ydym o weld Mrs Mary Ffrancon Roberts, Cerrigdrudion, Mrs Theresa Jones, 10 Glanrafon a Mr Griffith Closs Williams, 2 Tan y bryn gartref wedi cyfnod yn yr ysbyty. Dymunir llwyr wellhad yn fuan iddynt.

LLONGYFARCHION i Jennifer Ellis, Hafan ar gyrraedd ei deunaw oed; hefyd ar ei dyweddiad â Robin Davies o Lanberis. Pob bendith iddynt i'r dyfodol.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Gwen, merch Mr a Mrs Tecwyn Griffiths, 6 Glanrafon ar basio arholiad Gradd 2 mewn Bale. Mae Gwen yn ddisgybl yn ysgol ddawnsio Judy Hughes, Bangor.

DIOLCH: Dymuna Jennifer ddiolch o galon am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn deunaw oed.

Dymuna Jennifer a Robin ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar eu dyweddiad. Diolch yn fawr iawn.



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

Mae mwy o ddewis
nag erioed gan
**JOHN A ROBERTA
GRIFFITH
Y STORFA
SGWÂR LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau,
Dioddydd, Gwlân Sirdar,
Patrymau, Gweill Aero
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.
Agored tan 8.00 p.m. nos
Wener a
9.30 - 12.30 fore Sul

Archebwch dros y ffôn - fe'i danfonwn at eich drws

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

SIMON LLWYD Y FOTY

Gallaf gofio'r hen gân yma'n cael ei chanu ar y llwyfan yng Nghapel Pontrhythallt mewn Eisteddfod Nadolig dros drigain mlynedd yn ôl. Enw'r awdur yw Taliesin o Eifion Y don yw 'Wait for the Waggon'.

Am Simon Llwyd y Foty
Fe ddwedai llawer un
Nad oedd ei ben o bobtu
Yn gytwys a chytûn;
Fe allai ar amserau
Fod arno ychydig goll,
Ond pwy a dwyllai Simon
Er gwaethaf hynny oll.

Cytgan:

Pwy a dwyllai Simon,
Pwy a dwyllai Simon,
Pwy a dwyllai Simon
A'i 'chydig bach o goll?

Ryw ddydd i Ffair Llandegla
Aeth Simon gyda'i fuwch,
Oherwydd fod y gwartheg
Yn cyrraedd prisiau uwch.
A hithau'n hen gymhares,
Yn gyndyn iawn o'i llaeth,
Fe ddwedai Simon ganwaith,
'Does bosib cael dy waeth.'

Daeth ato wr bonheddig
O ochr Penarlâg.
R ôl chwilio peth a'i theimlo,
Fe drawyd bargaen frâg.
'A wnewch ei chadw yma'
Medd hwnnw, 'am hanner awr?'
'Gwnaf siŵr, gwnaf siŵr' medd Simon,
'Ond rhoch y pres i lawr.'

Daeth Sais cyn pen pum munud
Gan weiddi nerth ei geg
'Hei, what you ask for that old cow?'
'Wel, pedair punt ar ddeg.'
'What, fourteen pounds for that old thing,
I'll only give you ten.'
'Wel dyma ddyn cynddeiriog'
Medd Simon. 'Sold again.'

Ond drannoeth wrth y Foty
'Roedd gŵr a'r hugan las
Yn moesgar alw Simon
I lawr o ben y das.
Aent law yn llaw i Ruthun
A Simon Llwyd yn fud
Er faint a ddwedai'r plisman
'Doedd beryg yn y byd.

Ar frys anfonai Simon
Am dwrne mawr y dre
I geisio sythu'r pethau
A'u gosod yn eu lle.
Fe ddwedai hwnnw'n union
Fod carchar am y tro
Os nad oedd modd gwneud allan
Fod Simon ymhell o'i go'.

'Mi fedraf i am bumpunt
Gael eto'th draed yn rhydd.'
'Wel bendith' ebe Simon,
'Yr arian ichwi fydd.'
Meddai'r twrne, 'Pan ei o flaen yr Ustus
Paid ateb hanner gair,
Ond cana ryw hen gân wirion
A glywaist yn y ffair.'

'Ni fedraf fi' medd Simon
'Ond Wait for the Waggon'. 'Mae
hynny'n eithaf digon
I brofi fod arnat goll.'

Yr Ustus a ddywedai
'Simon Llwyd yr ydych chi
Yma i roi atebions
I'n holl cwestiynau ni,
Eich bod chi gwedi gwerthi
Yr un biwch i dau ddyn,
Am hynny beth sy gennych
I ateb tros eich hun?'
Yna canai Simon
Wait for the Waggon.
Pwy a dwyllai Simon
A'i 'chydig bach o goll.

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Yr Ustus a ddywedai
Gan weiddi ar flaenau'i draed
'Mae hyn i'r Mainc a'r Ynid
Yn insult mwya caed.
Mi piaswn yn dy gosbi
Oni bai dy fod 'mhell o'th go.
Rwy'n siŵr nad wyt yn gymwys
I werthu biwch na llo.'
Yna canai Simon
'Wait for the Waggon'

Wel Simon Llwyd gychwynnai
Yn union tua thre
A'r twrne a'i cyfarchai
'Bravo my lad, Hwre!
Mi wnaethom iddynt edrych
Fel ffyliaid yn y ffair.
Wel, Simon, dowch â'r pumpunt,
Talwch yn ôl eich gair.'
Yna canai Simon,
'Wait for the Waggon'.
Pwy a dwyllai Simon,
A'i 'chydig bach o goll?

RATIONS WYAU 1940

Meddai'r bardd:
Dedwydd yw iâr yn dodwy.
Ai byw a wnaef heb un wy?

Megais gywen ddu ac annwyl
Yn y cefn drwy drafferth mawr.
Siani, ti yw'r gywen honno
Na wn ble yr wyt yn awr.
Maith yw'r amser er pan ddodwaist,
Gywen annwyl, wyt ti'n iach?
Os na elli gael dy rations
Gofyn am gerdyn, Siani bach.

Pan y criapiaist ti fy wyneb,
Pan y crafaist gylch fy nhraed,
Codai hiraeth yn fy nghalon
Am 'rhen geiliog mawr, dy dad.
Do, mi godaist yn fy stumog
Yma hiraeth mawr am wy.
Mae dy ddi-ddodwy oerfelgarwch
Heddiw'n codi hiraeth mwyl.

Gorllyd yw fy wyau cadw,
Ie, gorllyd iawn a phrin,
Tra rwy'ti, efallai Siani,
Gyda digon o fara gwyn.
Nid oes raid i ieir drws nesa
Nac i ti dy hun gael cam,
Os nad yw yn ormod gofyn
Cofia 'Ham Heb Eggs' dy fam.

Ymddangosodd y penillion hyn yn Y
Cymro oddeutu 1940 ond nid oes enw
wrthynt.

90 OED



Mrs Ellen Griffiths, Bryn Llwyd, a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 90 oed ar chweffor 15fed.

LLANBERIS

CLWB ERYRI: Bydd y BBC yn recordio'r rhaglen PINIWN nos lau, Mawrth 13 am 7.30.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd nos Wener, 7fed o Chwefror cafwyd anerchiad difyr gan y Parch Gwynfor Williams ar ei ddyletswyddau fel Dirprwy Bennaeth Gwasanaeth Ambiwlans Gwynedd. Llywydd y noson oedd Mr Cledwyn Williams, Llanrug, a chafwyd yr anerchiad barddol gan Fardd y Clwb, Mr lolo Huws Roberts, Waunfawr. Talwyd y diolchiadau gan Mr Eurwyn Jones, Llanberis. Bydd y wibdaith flynyddol ddydd Sadwrn, Mehefin 14.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ionawr 30, dan arweiniad Mrs Hannah Jones, a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau.

Cydymdeimlwyd â Mrs Jean Elis yn ei phroffedigaeth o golli ei chwaer yng nghyfraith.

Aeth y tîm dartiau i ymweld â Sefydliad y Merched yng Nghyffordd Llandudno a chafwyd croeso cynnes ganddynt.

Ein gŵr gwadd am y noson oedd Mr Jones, Tawel-Lan a chafwyd sgwrs a sleidiau am Jeriwsalem lle bu ar ei wyliau fis Tachwedd diwethaf. Diolchwyl i Mr Jones ac i'r gwestwagedd gan Mrs Jan Davies a Mrs Dilys Jones. Y gwestwagedd oedd Mrs A.N. Evans, Mrs Katie Morris a Mrs Gwen Edwards. Enillwyd y raffl gan Mrs Hannah Jones.

NOSON GOFFI: Cynhelir Noson Goffi yn y Clinic nos Fercher, Mawrth 6 am 6.30. Byddai genod y Clinic yn falch iawn o dderbyn unrhyw rodd, yn gacennau, neu rywbeth i'r stondin Eliffant Gwyn. Dowch yn llu i'n cefnogi.

BINGO A BWYD: Cynhelir noson o Bingo a Bwyd yng Ngwesty'r Gwynedd, nos Wener, Mawrth 21 am 7.30.

DRAMA 'TYWYDD MAWR': Ie, dyna yw'r ddrama a berfformir eleni gan Gwmni Drama Llanberis. Cewch ei gweld yn Neuadd yr Eglwys nos lau, Mawrth 13 am 7.30.

DIOLCHIADAU: Dymuna Gareth a Christine Jones, 12 LLainwen Isaf, ddiolch o galon i bawb, yn deulu, cymdogion a ffrindiau am bob caredigrwyfdd a ddangoswyd i Gareth tra oedd yn Ysbyty Gwynedd ac wedi dychwelyd adref.

Anfonwn ein dymuniadau gorau i chwi Gareth.

Dymuna Mrs Enid Roberts, 56 Maes Padarn ddiolch yn fawr iawn am y dymuniadau da, yn gardiau ac

ymweliadau, a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna Nia a John, Minffordd, Ffordd Tŷ Du ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau yn Llanberis a'r cylch am yr anrhegion defnyddiol a'r llu cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu dyweddiad.

LLONGYFARCHIADAU: i Robin, mab Mr a Mrs Hugh Lloyd Davies, Hafod Lydan ar ei ddyweddiad â Jennifer, merch Mr a Mrs Tony Ellis, 5 Nant Ffynnon, Nant Peris. Longyfarchiadau hefyd i Jennifer ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Chwefror 8.

Llongyfarchiadau i Mrs Ellen Griffiths, Bryn Llwyd, 1 Stryd Newton ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed ar Chwefror 15.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn yn fawr iawn â Mrs Bessie Jones, 12 Rhes Cambrian ar farwolaeth ei brawd Hugh Llywelyn (Lleww) yn Dudley, Worcs.

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mrs Myra Jones, Aylwyn, Ffordd Capel Coch ar farwolaeth ei gŵr, Norman, ar Ionawr 31 yn 76 mlwydd oed.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau am wellhad buan i bawb sydd yn yr Ysbyty: Mr Huxley Thomas, Stryd Newton; Mr Allan Parry, Stryd Turner; Mr Gwilym Jones, 88 Maes Padarn; Mrs Louisa Roberts, Tŷ Newydd, Clegir; Mr Gareth Jones, 12 Llainwen Isaf; Alice Jones, 70 Maes Padarn.

Gobeithiwn y gorau i'r rhai sy'n dioddef unrhyw anhwylder gartref.

MARWOLAETH: Ar Chwefror 16 bu farw Mrs Hannah Williams, Plas Pen Gwaith yn 87 mlwydd oed. Areferai fyw yn Alexandra House (Siop Bapur). Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Coch a rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Nant Peris.

DATHLU PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Ellen Griffiths, Bryn Llwyd, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Chwefror 15—oddi wrth ei chyfnither Mrs Maisie Lewis a'r teulu, Llys Tudur.

DIOLCH: Dymuna Mrs Ellen Griffiths, Bryn Llwyd ddiolch yn fawr am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed ar Chwefror 15. Diolch hefyd i Daphne a'r teulu am drefnu'r dathliad gydag 19 o westeion ym Mryn Llwyd.

AWYRLU: Pob llwyddiant i lan Torr sydd, ae ôl gorffenn ei gwrs hyfforddiant sylfaenol, yn parhau ei yrfa yng Ngorsaf yr Awyrlu, Cosford.



Perfformwyr meddw Llanber yn eu dyblau yn cael hwyl am ben cynulleidfa'r ffug eisteddfod.

CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA' CYSYLLTIADAU'R FRO Â "PILGRIMS REST"

YN DILYN y lluniau a'r wybodaeth y mis diwethaf am feddau Pilgrim's Rest yn Ne Affrica, derbyniais nifer o alwadau ffôn, mwy o luniau a gwybodaeth ychwanegol am y dref fwyngloddio aur. Mae'n amlwg fod llawer o deuluoedd o'r fro wedi cael eu denu i Dde Affrica i chwilio am aur ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf ac ar ddechrau'r ganrif hon. Mae'n ymddangos mai teuluoedd o Gwm-y-glo oedd llawer ohonynt.

Dyma lythyr a ddaeth i law oddi wrth Mrs H. Tilda Owen, Garthowen, Plwmp, Llandysul (Y Fron, Llanrug, gynt):

Ym mis Hydref 1976 aeth fy chwaer, Megan a minnau, i Dde Affrica ar wyliau i gyfarfod â llu o berthnasau oedd wedi eu geni a'u magu yno. I Pilgrim's Rest ar ddechrau'r ganrif yr ymfudodd dau frawd a dwy chwaer i fy mam, sef Mrs A Jones, Y Fron, Llanrug; — a chartrefu yno i weithio yn y gwaith aur.

Ganwyd saith o blant i William a Lizzie Jones (William Jones o Ben y Bwlch, Cwm-y-glo), ond erbyn hyn mae'r teuluoedd wedi chwalu ar hyd a lled y wlad; y gwaed Cymreig wedi teneuo, ond enwau Cymraeg ar sawl un ohonynt, hyd yn oed i'r bumed genhedlaeth!

Roedd mynd i Pilgrim's Rest wrth fodd fy nghalon, i weld y pentref bach lle sgwennais lu o lythyron yno er yn blentyn. Roedd yr adeiladau a'r tai yn union fel cynt, mewn cwm dymunol, tebyg i sawl un yng Nghymru. Doedd ryfedd i ugeiniau o Gymry sefydlu yno. Ysywaeth, claddwyd nifer fawr yno hefyd, a'r rhan fwyaf ohonynt yn ifanc iawn. Yn eu plith mae llawer o ardal y chwareli.

Mae'r cwm erbyn hyn dan ofal y Parc Cenedlaethol: mae amgueddfa yno yn dangos holl gelfi a chreiriau'r gwaith aur. Ar y wal yno mae lluniau perchennog, rheolwyr a chapteiniaid y gwaith aur. Yn eu plith roedd lluniau perthnasau i mi.

Ym mynwent y Capel Wesla y cleddid y Cymry — y capel lle roedd y canu ar y Sul yn ddigon i godi'r to medda nhw!

Bu Mrs Owen yn cofnodi rhai o'r arysgrifau ar gerrig beddi'r fynwent. Yn eu plith mae'r canlynol:

Grace Robert Jones, Cwm y glo. Died 9th August, 1950 aged 70 years.
Morfudd Elin Jones, merch fach W. ac E. Jones. Mai 24ain 1912 yn 2 oed.
William John Jones, Cwm y glo. ganed Mehefin 1874: bu farw Tachwedd 1934.

Aeth Mr Cecil Williams, Hafan Elan, Llanrug, un yn well na phob cysylltydd arall, a daeth draw yn un swydd gyda llun o'r wraig a gladdwyd yn 'Pilgrim's Rest'. Roedd Mary Roberts yn nain iddo (mam Anne Catherine — gwraig yr Hen Bar, Cwm-y-glo), ac ail wr iddi oedd y G.J. Roberts sydd wedi ei gladdu yn Ne Affrica. Magwyd Anne Catherine, ei merch, gyda'i thaid a'i nain yng Nghwm-y-glo, ac nid aeth drosodd i Dde Affrica. Dyma'r arysgrif ar ei charreg fedd:

Mary Roberts, beloved wife of G.J. Roberts.
Born at Cwm y Glo, North Wales.
Died 15th August, 1912.
Aged 42 years.

Un annwyl yn y glyn unig — a roed Mary hoff, garedig;
Huna draw 'mhell o'i hen drig — nes delo
Ein lôr i'w deffro o weryd Affrig.
Dewi Orwig

Also, the said G.J. Roberts;
Died at Pilgrim's Rest, June, 1918
Aged 49 years.
Dyddiau dyn sydd fel glaswelltyn.



Prif stryd Pilgrim's Rest. Darganfuwyd aur yma am y tro cyntaf ym 1873.



G.J. Roberts a Mary, ei wraig, yn sefyll uwch bedd rhywun o'r enw 'Henry' o Gwm-y-glo. Y bedd ym mynwent Pilgrim's Rest.

Bu Eirwen Williams, Llwyncoed, Cwm-y-Glo yn Ne Affrica y llynedd yn ymweld â theulu. Mae ewyrth iddo — Michael Owen yn byw yn "Pilgrims Rest", ac ewyrth arall — Fred Owen, hefyd yn byw yn Ne Affrica. Meibion ydynt i John a Sally Owen a ymfudodd i Dde Affrica o "Glyndwr", Cwm-y-Glo ym mis Tachwedd 1923.

Roedd ymweliad â'r fynwent yn rhan o'i daith yntau hefyd, gan fod perthnasau iddo wedi eu claddu yno.

Efallai i rai o ddarlennwyr yr Eco gofio'r rhaglen deledu rai blynyddoedd yn ôl yn dilyn hanes Michael Owen "O Gwm-y-Glo i Gwm yr Aur".

Ar y chwith:

Y Capel Wesleiaidd yn Pilgrim's Rest. Ym mynwent y capel hwn y claddwyd llawer o Gymry o'r fro hon a aeth drosodd i Dde Affrica i weithio'n y gwaith aur.



Bedd Henry Roberts Cwm-y-Glo.



Michael Owen a'i frawd Fred, ger Pilgrims Rest.

J.M. JONES
a'i FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU
DEINIOLEN

(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)

Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol
Cerrig o Bob Math ar Gael

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)



Bistro
Glandŵr



43-45 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278
(Danny a Nerys Roberts)

Amser Cinio o ddydd Llun i ddydd Gwener
Gwahoddir partïon o rhwng 6 a 15 i wylïo Nerys yn coginio
ac ymuno yn y gwaith — Pris £7.50 yn cynwys cinio.
Bob nos ag eithrio nos Sadwrn pryd blasus 3 chwrs yn
defnyddio bwydydd tymhorol gorau £8.00

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

YSGOL TAN-Y-COED: Dymuna'r staff a phlant yr ysgol adferiad buan i Matthew, ar ôl triniaeth i'w draed yn Ysbyty Gwynedd.

Bydd Gwyliau'r Pasg o Fawrth 21 hyd Ebrill 7.

YR URDD: Ionawr 22, daeth Islwyn Williams i ddiddori'r plant. Y llynedd tynnodd lun o las-y-dorlan a chyflwynodd ef i'r ysgol. Eleni corhwyaden, y leiaf o hwyaid Cymru a dynnodd. Roedd llygaid y plant wedi'u hoelio ar yr arlunydd medrus. Cawsant gwis diddorol ganddo hefyd ac roedd Islwyn yntau wedi rhyfeddu at wybodaeth eang y plant o adar. Daeth nifer o blant â llyfrau Islwyn i'r ysgol i'w harwyddo ganddo. Diolch yn fawr i chwi am roi cymaint o fwyniant i'r plant.

Un sydd wedi bod yn ffyddlon iawn i'r Urdd yn y pentref yw Miss Phyllis Elis, mae wedi dod atom bob blwyddyn bellach, a rhywbeth gwahanol mewn stôr bob tro. Hanes y teledu a gafwyd Ionawr 29, ac roedd ôl ymchwil manwl yma. Roedd y plant wrth eu bodd yn cael hanes cynnar y teledu, sut mae gwneud ffilm, y coluro a'r 'styntiau'. I orffen y noson cafodd rhai o'r plant gyflwyno 'Newyddion Penisarwaun' ar deledu bach, newyddion doniol dros ben oedd y rhain! Diolch i Phyllis am fynd i gymaint o drafferth.

'Byd Natur' gyda Duncan Brown, Ceunant, gafwyd Chwefror 5. Ystlumod oedd y pwnc a gwnaeth ei orau glas i gael y plant i'w hoffi drwy ddangos ffilmiau bendigedig, a sgwrs hynod o ddifur a diddorol. Cafodd pob un o'r plant lyfryn bach am Ystlumod ganddo i fynd adref. Wedi noson mor lwyddiannus rwy'n siŵr y cawn eich cwmni eto Mr Brown, diolch yn fawr i chi.

Edrychwn ymlaen am gwmni Miss Jini Owen, Chwefror 19. Bydd cangen Bethel yn dod atom i Neuadd yr Eglwys am 6.00 o'r gloch.

Pob hwyl i'r plant sy'n cystadlu yn Eisteddfod Cylch yr Urdd, ddydd Sadwrn, Chwefror 22.

GWELLA: Oherwydd oerni mawr y gaeaf yma mae nifer o'r pentrefwyr yn dioddef o'r anwyd a'r fflw. Swatiwch wrth y tân a chymerwch ofal a brysiwch wella i gyd!


Ein dymuniadau da am adneriad buan i Mr John Jones, Cae Corniog, Mr W.H. Griffith, Tros y Waun, ac Eurwyn Jones, Camelot, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Da gennym ddeall fod Mrs Rose Jones, 26 Bryntirion yn gwella wedi triniaeth yn yr ysbyty.

DIOLCH: Dymuna Arthur a Maldwyn Parry a'r teulu oll ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu

profedigaeth o golli tad, sef Sam Jones Parry, 2 Cefn Coed. Trwy garedigrwydd perthnasau a ffrindiau bu'n bosibl anfon £230 i Gronfa Apêl Sganner Ysbyty Gwynedd. Diolch i bawb am eu haelioni.

Dymuna Eurwyn Jones, Camelot ddiolch am y llu cardiau, galwadau ffôn; ac ymweliadau yn ystod ei waeledd.



Straffig gyda phopeth yn yr act gwreiddiol hon!

FFUG EISTEDDFOD YR ECO: Ie, yn ôl i Benisarwaun y daeth y darian fawr eto am y trydydd tro, wedi cystadlu brwd yn erbyn genod dawnus Clinic Llanbêr. Un pentref a chlinic, yn cadw noson hwyliog o 7.30 - 11.00 pm. 'Ffylliaid' oedd y label arnom, ond wir roeddem yn fwy na pharod i fentro allan drwy'r oerni, a rhai ohonom dros ddeg a thrigain oed, i brofi ein hunain yn "ffylliaid ffyddlon", er mwyn yr Eco. Diolch i chi genod y Clinic am fod yn "wrthwynebwyr" bendigedig. Yn wir, roedd eich eitemau llwyfan yn hynod o raenus a digri. Rwy'n siŵr eich bod wedi cael hwyl, fel ninnau wrth ymarfer.

Nos lau, Chwefror 27 bydd aelodau Clwb yr Heulwen a ffrindiau yn ymweld â Chanolfan Aber Conwy i flasu ffilmio rhaglen deledu Taro Tant gyda Hogia'r Wyddfa, Rosalind a Myrddin ac eraill. Diolch i Arwel am wneud y trefniadau.

Bwriedir mynd allan am swper o gwmpas Gŵyl Ddewi, i ddathlu yr 'Hat Trick' yn Eisteddfod yr Eco. Fe geir y manylion ymhellach ymlaen.

CYDYMDEIMLO: Dymuna aelodau Eglwys Santes Helen gydymdeimlo'n ddwys iawn â Mr Tom Evans, Trem Eilian, Brynrefail ar golli ei wraig, Mrs Ann Evans, un fu'n



Parti Cryg-adroddi gyfeiliant catarrh.

aelod ffyddlon yn yr eglwys ac yn Undeb y Mamau. Bu'r angladd ym mynwent Eglwys Santes Helen, gyda'r Deon Gwlad, Mr Richard Jones, yn gweinyddu, bnawn lau, Chwefror 13.

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Woods, Bryn Arthur ar fod yn nain. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r Deon Mr Richard Jones, ar gael ei benodi yn Ganon Cadeirlan Bangor, oddi wrth aelodau Eglwys Santes Helen.

CLWB CANT: Siomedig fu'r ymateb i'r Pwyllgor Cyffredinol, Ionawr 29. Cafwyd adroddiad ariannol a dewiswyd swyddogion. Etholwyd pawb oedd yn bresennol a sy'n amlwg â diddordeb mewn cael neuadd i'r pentref, yn aelodau o'r pwyllgor.

Chwefror 18 cafwyd noson yng nghwmni cystadleuwyr dwy eisteddfod - sef ffyddloniaid y Ffug Eisteddfod ac Aelodau'r Urdd.

Enillwyr Clwb Cant mis Ionawr oedd - £20, Carys Jones, Porthaethwy; £12, Mr D.M. Hughes, Bodawen; £7, Mrs Brenda Richardson, Bodhyfryd.

CYNGERDD LLEISAU'R GWEUNYDD

Cynhelir Cyngerdd Blyneddol Lleisiau'r Gweunydd yn Neuadd y Pentref, Rhiwlas ar nos Fercher, Mawrth 19eg am 7.30 gyda Hogia'r Wyddfa, Huw Edward Jones, Anette Bryn Parry a Lleisiau'r Gweunydd. Arweinydd y noson fydd Morien Philips, Bangor.

Mae'r Lleisiau'r Gweunydd wedi bod yn ôl yn Stiwdio Sain, Llandwrog yn ddiweddar yn recordio eu hail record, a'u gobaith yw y bydd ar werth yny cyngerdd.

Mae'r tocynnau (£1.50 i oedolion, 75c i bensiynwyr a phlant) ar gael gan: Mary Elliot, Crud y Wawr, Penisarwaun (Ffôn: Llanberis 872438) ac Einir Wyn Owen, Ffigau'r Grug, Rhiwlas (Ffôn: Bangor 352890).



Pedoli'r Llenor Buddugol am Lythyr Anifeilaidd.

AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I

SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN

Ffôn:
Llanberis 871272

CANOLOG I'R FRO



Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

YR URDD: Mae'r gangen leol wedi bod yn brysur iawn yn ystod yr wythnosau diwethaf yn ymarfer a chymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau'r Mudiad. Am eu llwyddiant mewn Gala Nofio dan 12 oed ym Mangor dylid llongyfarch y canlynol - Sian Ll. Jones (1af - Ras Pili Pala). Bechgyn - Ras Gyfnewid Rydd - 3ydd, Aled Griffith, Raphael Ginsberg, Arfon Roberts, Gethin Jones. Merched - Ras Gyfnewid Rydd - 3ydd, Manon Elis, Ruth Parry, Sian Emlyn, Sian Llewelyn. Merched - Ras Gyfnewid Gymysg - 3ydd - Bethan Jones, Ruth Parry, Sian Llewelyn, Sian Emlyn.

Hefyd yn y Gala Nofio dros 15ed yng Nghaernarfon daeth Dafydd Ll. Jones yn gyntaf yn y nofio rhydd 50m a nofio cefn 50m ac Aled Jones yn gyntaf am nofio broga 50m ac yn y ras nofio cymysg unigol 4 x 25m.

Tim ras gyfnewid Bethel gyda Dafydd Llewelyn Jones, Aled Jones, Elwyn Parry ac Ian Jones ddaeth yn gyntaf yn y ras rydd a'r 4 x 25m ras gymysg 4 x 25m. Daeth Haf Owen, Mandy Williams, Angharad Price a Ceri Hughes yn ail yn y ras gyfnewid rydd ac Angharad Elis, Lynn Roberts, Carys Owen a Gail Warrington yn drydydd yn y ras gyfnewid cymysg.

Bu'r plant yn ymweld â changen yr Urdd Penisarwaun nos Fercher Chwefror 19. Diolch yn fawr, Penisarwaun, am eich croeso.

Dymunir y gorau iddynt i gyd a gobeithio y gellir sôn am eu llwyddiant yn rhifyn nesa'r Eco.

MERCHED Y WAWR: Yng nghyfarfod mis Chwefror y wraig wadd oedd Miss Sophia Pari Jones o Amgueddfa Felin Faesog Clynnog. Croesawyd hi a hefyd aelodau o ganghennau Deiniolen a'r Bontnewydd oedd yn ymweld â'r gangen, gan y llywydd Mrs Mair Price. Er oered y tywydd roedd y neuadd yn llawn, gyda llawer wedi dod â'u trysorau i'w dangos, a chafwyd noson bleserus yn gwrando ar Miss Jones yn rhoi ei barn ar eu hoed a'u gwerth, a hefyd sut i edrych ar eu hól.

Diolchwyd i Miss Jones gan Mrs M.G. Williams, Gwylfa. Enillwyd y raffl gan Miss Eryl Roberts, Bryn Rhedyn. Y gwestwagedd oedd Mrs Lynnen Morris, Mrs Mair Price a Mrs Nora Parry. Diolchwyd ar ran canghennau Deiniolen a'r Bontnewydd gan Mrs Eirlys Williams a Mrs Elizabeth Owen.

Nos Fawrth, Mawrth 11 bydd y gangen yn mynd i Lanrug i Sioe Ffasiynau. Bydd y bws yn cychwyn o Benrhos ac wrth yr ysgol am 7.15. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Fawrth 12 pryd bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Cantorion Moreia.

Mae pwyllgor Celf a Chrefft Arfon wedi trefnu gwibdaith i Lundain i'r

'Ideal Home Exhibition' ar Fawrth 24. Mae angen rhywun i gynrychioli cangen Bethel ar y pwyllgor yma, hefyd rhywun i fynd ar bwyllgor Carnifal Bethel. Os oes rhywun â diddordeb cysylltwch â'r ysgrifenyddes.

Yn y cyfarfod nesaf gwneir casgliad i apêl yr Urdd.

CLWB Y MAMAU: Yng nghyfarfod Ionawr o Glwb y Mamau cafwyd noson yng nghwmni Mrs Miriam Thomas gydag arddangosiad o ddillad 'Pippa-Dee'.

Cyflwynwyd dau raffl gan Miriam ac fe wnaethpwyd elw o £13.00 i gronfa'r Clwb.

Atgoffir bawb o aelodau a ffrindiau am yr ymweliad â'r Orsaf Ddan yng Nghaernarfon **nos Iau Chwefror 27**. Cychwynnir o'r ysgol am 7 o'r gloch.

CARNIFAL 1986: Atgoffir pawb bydd Cyfarfod yn y Neuadd nos Lun, Mawrth am 7.30 i drefnu Carnifal eleni. Apelir am gefnogaeth yn y cyfarfod hwn.

CLWB FFERMWYR IEUAINC: Cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol yn y clwb yn ystod mis Ionawr - 14: Meinir Williams, Godre'r Eifl yn dangos lluniau a dynnodd tra arei hymweliad â Hungary. 21: Dr R E Jones, Rhostryfan yn arddangos gwaith coed. 28: Uwch Arolygydd Rowlands a ddangosodd ffilm ar ddrygiau ac arogli glud. Chwefror 4: Mr Tom Rowlands, ADAS, a ddarparodd gwis ar ein cyfer. Hefyd daeth Gethin Clwyd, y Trefnydd i'r

clwb.

Ar Ionawr 23 bu nifer o'r aelodau yng Nghaernarfon Hamdden Arfon yn cystadlu yn chwaraeon Eryri. Dyma'r canlyniadau:

Dartiau Dwbl: Helen Jones ac Andrew Jones (cyd 3ydd). Tennis bwrdd: Myfyr Jones (3ydd). Bu'r canlynol hefyd yn cystadlu - Badminton: Angharad Price ac Alwyn Jones a ddaeth yn gydradd drydydd yn y Dwbl. Dartiau Sengl: Elwyn Griffith.

Dydd Sadwrn Chwefror 8 cynhaliwyd diwrnod gweithgareddau merched yng Nghaernarfon Cymdeithasol Llanrwst. Cystadleuodd y canlynol mewn gwahanol gystadlaethau - Angharad Price, Meinir Williams, - coginio dan 18 oed. Amanda Farrar, Ellen Hughes, Morfudd Williams a Myfanwy Jones - Gwnio a Chefft. Ellen Hughes a Jane Thomas - coginio (darparu 4 eitem yn uchel mewn ffibr) - ail wobwr.

CYDYMDEIMLO: Ddydd Mercher, Chwefror 5 yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mrs Shirley Anne Jones, Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen. Estynnir ein cydymdeimlad llwyrfa â'r teulu yn eu profedigaeth o golli gwraig a mam mor ifanc.

Ar ôl bod yn wael am gyfnod byr bu farw Mr Tecwyn Williams, Ty'n 'Ronnen gynt yn 49 mlwydd oed. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyrfa â Mrs Williams, Gwynfor a'r teulu yn eu profedigaeth.

BRYNREFAIL

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

ADRAN YR URDD PEN LLYN: Chwefror 3 cynhaliwyd y noson goffi yn ysgol Gynradd Cwm-y-glo a chafwyd noson lwyddiannus iawn a phawb yn mwynhau eu hunain. Enillwyd y raffl fawr gan - Bocs bisgedi: Mary 'Rallt, Brynrefail, Sheri: Meuryn Petrol; Bocs siocled: Gernant, 'Rallt Goch; Bocs siocled: Sylvia; Potel win: Einir Wyn, Min y Nant; Potel win: Snowdon Hotel; Gwydrau: Elin Graig y Don; Tun bisgedi: Mrs Jones, Seiont House; Cannwyll: Robert Bryn Gro; Powdwr a Sebon: Meirion Evans, Nefyn.

Nos Fercher, Chwefror 19 aeth pedwar o fechgyn o'r adran i ymgeisio yn y gystadleuaeth nofio dan 15 oed i'r Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Ni chafwyd fawr o lwyddiant y tro hwn ond daeth y tîm cyfnawid yn ail yn y ras nofio rhydd. Gwell lwc tro nesaf fechgyn.

Daeth Mr Leslie Larsen Penisarwaun atom i sgwrsio nos Lun Chwefror 24.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng

nghyfarfod y mis yn yr ysgoldy, cafwyd noson ddiffr yng nghwmni Mrs M.E. Jones o Griccieth - un o aelodau pwyllgor rheoli'r mudiad - yn trafod ei phlentynod a'i hoff gymeriadau yng Ngwynedd. Darparwyd lluniaeth gan Rhian Williams a Val Davies. Enillwyd anrheg y mis gan y llywydd, Pat Jones.

CLWB Y MAMAU: Daeth nifer dda ynghyd am swper i'r 'Lake View' ar Chwefror 14, a da yw datgan fod brwdfrydedd i gario'r clwb ymlaen. Trafodwyd rhaglen hyd at Mehefin 86.

PROFEDIGAETH: Bu farw Mrs Annie Evans, 4 Tremeilian yn ysbyty Bryn Seiont ar Chwefror 9. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys at y teulu oll, ac yn arbennig at Mr Thomas John Evans a'r meibion.

Fe hoffa'r teulu ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth.

CYDYMAITH I BOB CARTREF

'Sut yn y byd y byddem yn gallu dod i ben hebddo?'

Gwêl diwedd y mis bach lansio'r cyfeirlyfr pwysicaf i'w gyhoeddi yng Nghymru y ganrif hon, llyfr a ddylai fod ar aelwyd pob Cymro a Chymraes ddiwylliedig. Bydd y llyfr hwn yn gydymaith di-ffael i gyfoeth o wybodaeth nas ceir yn rhydd mewn unrhyw ffynhonnell unigol arall, am lenyddiaeth Gymraeg ac Eingl-Gymreig o'r cyfnod cynharaf hyd heddiw, hanes ein gwlad a phob math o bynciau eraill ac iddynt gysylltiadau llenyddol, digwyddiadau, Cymry enwog, llen gwerin a llawer, llawer mwy.

Llyfr pwysig yw hwn a fydd yn diwallu angen mawr yn yr astudiaeth o hanes a llenyddiaeth Cymru. Fel y dywed y Dr R. Geraint Gruffydd, Cyfarwyddwr Canolfan Uwch Efrydiau Cymraeg a Cheltaidd:

'Bydd y Cydymaith yn sicr yn

llyfr cyfeirio cwbl anhepgor, ac yn cymryd ei le gyda'r Bywgraffiadur ar silffoedd pob Cymro a Chymraes sy'n ymddiddori yn hanes a diwylliant Cymru. Fe fydd yn cynnwys gwybodaeth awdurdodol a chryno... ac ymhen ychydig iawn o amser fe fyddwn yn gofyn i ni'n hunain sut yn y byd y byddem yn gallu dod i ben hebddo. Dyna nod amgen y llyfr cyfeirio safonol, ac yn sicr y mae'r Cydymaith yn perthyn i'r dosbarth tra defnyddiol hwnnw o lyfrau.'

Felly am bris o £17.50, sy'n deg dros ben am lyfr o 700 tud., clawr caled, cynigir ichi waith anhepgor i'ch cartref ac i'ch plant a hefyd llyfr a gysodwyd ac a argraffwyd yng Nghymru.

Golygwyd y Cydymaith gan Meic Stephens, Cyfarwyddwr Llenyddiaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, ar rah yr Academi Gymreig. Tasg wyth mlynedd o baratoi oedd hwn ac un fydd yn werth y llafurio caled. Cyfrannwyd i'r llyfr gan dros 200 o 'gymry llengar a gwybodus er mwyn sicrhau fod gan lenyddiaeth ein gwlad y parch a'r statws a haedda ymhlith llenyddiaethau eraill y byd.

Cyhoeddir Cydymaith i Lenyddiaeth CYMRU gan Wasg Prifysgol Cymru, ar ran yr Academi Gymreig, ac fe fydd ar werth yn eich siop lyfrau leol o 27 Chwefror 1986 ymlaen. Brysiwch i'w brynu; nifer gyfyngedig a gyhoeddir.

PLYGU'R ECO

Plygir yr Eco nesaf nos Iau, Mawrth 27ain yn Festri Capel Coch, Lanberis am 6.00 pm.

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .

Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652



W.J. GRIFFITH

PLYMAR

A GOSODWR

GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL

SYSTEMAU

GWRESOGI OLEW

GWRES BP



Aelod o'r National Association of Plumbers and Mechanical Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr..

ECO'R IFANC

EISTEDDFOD YR URDD CYLCH ARFON

Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn yn Ysgol Brynrefail gyda dros 400 o blant yn cystadlu. Llongyfarchiadau i bawb fu'n cystadlu ac i'r hyfforddwy'r a'r trefnwyr fu'n gweithio mor galed.

Dyma restr o'r buddugwyr fydd yn cynrychioli'r Cylch yn yr Eisteddfod Sir:

Unawd Dan 8: 1. Lyndsey Vaughan Parry (Gwaun Gynfi), 2. Lois Dafydd (A.B. Penisarwaun). **Unawd 8-10:** 1. Anwen Jones (A.B. Waunfawr), 2. Martin Llywelyn Williams (Gwaun Gynfi). **Unawd 10-12:** 1. Ffion Orwig Thomas (A.B. Bontnewydd), 2. Elliwlwyd Owen (A.B. Bontnewydd). **Unawd Alaw Werin dan 12:** 1. Ffion Orwig Thomas (A.B. Bontnewydd), 2. Manon Fflur Hughes (A.B. Bontnewydd). **Deuawd dan 12:** 1. Nia a Gwawr (Gwaun Gynfi), 2. Bethan ac Alaw (A.B. Waunfawr). **Unawd Merched 12-15:** 1. Ffion Jon (A.B. Bethel), 2. Manon Llwyd Breeze (A.B. Bontnewydd). **Unawd Alaw Werin 12-15:** 1. Ffion Medi Hughes (A.B. Bontnewydd), 2. Dylan Pierce Williams (A.B. Penisarwaun). **Deuawd 12-15:** 1. Manon Breeze ac Eluned Haf (A.B. Bontnewydd), 2. Sian Llwyd a Karen Roberts (Waunfawr). **Parti dan 12 oed - Adranau Pentref:** 1. Parti Ceri (Bontnewydd). **Côr dan 12 oed - Adranau Pentref:** 1. Côr Ruth (A.B. Bethel). **Parti dan 12 oed - Ysgolion Cynradd:** 1. Parti Gwenda (Gwaun Gynfi). **Côr dan 12 oed - Ysgolion Cynradd:** 1. Côr Sioned (Ysgol Iau Maesincla). **Parti Deulais dan 12 oed - Y.C. ac A.P.:** 1. Parti Ffion (A.B. Bontnewydd). **Cerdd Offerynnol - Unawd piano dan 12 oed:** 1. Lowri Angharad Roberts (Llanrug), 2. Ffion Orwig Thomas (A.B. Bontnewydd). **Unawd telyn dan 12 oed:** 1. Lowri Angharad Roberts (Y.G. Llanrug), 2. Gwenan Mair Roberts (Y.G. Llanrug). **Unawd chwythbrennau dan 12 oed:** 1. Alaw Jones (A.B. Waunfawr), 2. Osian Gwynedd (A.B. Waunfawr). **Unawd pres dan 12 oed:** 1. Eilir Wyn Williams (Gwaun Gynfi), 2. Sion Wyn Hughes (Gwaun Gynfi). **Unawd Llinynnol dan 12 oed:** 1. Gwenan Mair Roberts (Y.G. Llanrug), 2. Sophie Evans (Ysg. Iau Maesincla). **Parti Recorder dan 12 oed - Digyfeiliant:** 1. Parti Osian (A.B. Waunfawr). **Parti Telyn dan 12 oed:** 1. Parti Bethan (Llanrug). **Unawd piano 12-15:** 1. Angharad Price (A.B. Bethel), 2. Manon Llwyd Breeze (A.B. Bontnewydd). **Unawd Telyn 12-15:** 1.

Eirian Gwynn Roberts (Aelwyd Caernarfon), 2. Manon Llwyd Breeze (A.B. Bontnewydd). **Unawd Llinynnol 12-15:** 1. Delyth Einir Jones (Aelwyd Caernarfon). **Unawd chwythbrennau 12-15 oed:** 1. Euros Wyn (A.B. Waunfawr), 2. Telor Hedd Iwan (A.B. Waunfawr). **Unawd pres 12-15:** 1. Dylan Williams (Aelwyd Deiniolen), 2. Rhodri ap Llwyd. **Deuawd piano dan 15 oed:** 1. Sian Llwyd a Karen Roberts (A.B. Waunfawr), 2. Gwenllian Jones ac Eluned Wigley (A.B. Bontnewydd).

CERDD DANT: **Unawd dan 8 oed:** 1. Lyndsey Vaughan Parry (Ysg. Gwaun Gynfi), 2. Meilir Gwilym (A. Tref y Gelli, Caernarfon). **Unawd 8-10:** 1. Manon Fflur Hughes (A.B. Bontnewydd), 2. Nia Land (Ysg. Gwaun Gynfi). **Unawd 10-12:** 1. Elliwlwyd Owen (A.B. Bontnewydd), 2. Ffion Orwig Thomas (A.B. Bontnewydd). **Unawd 12-15:** 1. Ffion Medi Hughes (A.B. Bontnewydd), 2. Ffion Jon (A.B. Bethel). **Deuawd dan 15 oed:** 1. Eluned a Manon (A.B. Bontnewydd). **Parti Unsain dan 12 oed - Ysg. Cyn:** 1. Parti Sara (Gwaun Gynfi). **Parti Unsain dan 12 oed - Adranau Pentref:** 1. Parti Non, (A.B. Bethel).

ADRODD: 10-12 oed (Dysgwyr): 1. Diana Davies (Ysg. Gwaun Gynfi). **Dan 8 oed:** 1. Lindsey Vaughan Parry (Ysg. Gwaun Gynfi), 2. Lisa Coull (A.B. Bontnewydd). **8-10:** 1. Manon Fflur Hughes (A.B. Bontnewydd), 2. Awen Llwyd Owen (A.B. Bontnewydd). **10-12:** 1. Sion Wyn Hughes (Ysg. Gwaun Gynfi), 2. Elin Gwilym (A.B. Waunfawr). **Parti dan 12 oed:** 1. Parti Derwyn (Gwaun Gynfi). **Parti dan 12 oed - gyfeiliant:** 1. Parti Elliwlwyd (A.B. Bontnewydd). **12-15:** 1. Jennifer Ellen Jones (Aelwyd Deiniolen), 2. Ffion Medi Hughes (A.B. Bontnewydd).

CANU ACTOL: Pentref neu Cynradd: Grŵp 3 neu lai: 1. Parti Andrew (Adran Tref y Gelli, Caernarfon).

DAWNSIO GWERIN: Dan 12 oed - Adranau Pentref: 1. Parti Iwan (A.B. Bontnewydd).

Houston (A.B. Penllyn). **Unawd 10-12:** Susan Jones (Gwaun Gynfi). **Unawd piano dan 12:** Gwenan Mair Roberts (Llanrug). **Unawd Cerdd Dant 10-12:** Lowri Angharad Roberts (Llanrug). **Unawd Offerynnol Pres:** Sian Griffiths (Gwaun Gynfi). **Unawd Chwythbrennau:** Leane Mallison (A.B. Waunfawr). **Unawd Merched 12-15:** Sharon Wyn Williams (Aelwyd Deiniolen). **Unawd Pres 12-15:** Iwan Williams (Aelwyd Deiniolen). **Unawd Chwythbrennau 12-15:** Gareth Davies (A.B. Waunfawr). **Parti Unsain dan 12:** Parti Dyfan (A.B. Penisarwaun). **Parti Deulais dan 12:** Parti Alaw (A.B. Waunfawr). **Parti Adrodd dan 12:** Parti Owain (A.B. Penllyn). **Côr Adran Bontref:** Côr Carys (A.B. Penllyn).

Ymddangosodd yr unigolion a'r partïon canlynol ar lwyfan yr eisteddfod a daethant yn ail neu'n drydydd:

ALL: Parti Dawns dan 12: Parti Owain (Adran Penllyn). **Parti Cerdd Dant dan 12:** Parti Delyth (A.B. Waunfawr). **Parti Canu dan 12:** Parti Geraint (A.B. Waunfawr). **Parti Deulais dan 12:** Parti Nia (Ysg. Gwaun Gynfi). **Parti Adrodd dan 12:** Parti Bethan (A.B. Bethel).

TRYDYDD: Adrodd dan 8: Elaine Mai Williams (Gwaun Gynfi). **Unawd dan 8:** Huw Tegid (A.B. Penisarwaun). **Unawd 8-10:** Kailey Jones (A.B. Waunfawr). **Unawd Alaw Werin:** Dyfed Wyn Jones (A.B. Penisarwaun). **Adrodd 10-12:** Nicola

**GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF**

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS**

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D

L

PRITCHARD

43 Glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

CYFFURIAU A THODDYDDION

MAE'R ymateb i'r erthygl yn 'Eco'r Ifanc' y mis diwethaf wedi bod yn ardderchog. Llwyd gyfiawnhawyd y penderfyniad i gyflwyno'r erthygl ac ymateb y bobl ifanc i'r ffilmiau a ddangoswyd yn Ysgol Brynrefail. Dim ond un llais gwan a glywyd yn gwrthwynebu.

Addawyd cyflwyno rhagor o wybodaeth y mis hwn ynglŷn â'r broblem ynghyd â rhai o'r sumtomau i edrych allan amdanynt.

Efallai y dylid ar y cychwyn ystyried pam fod yr ifanc yn ymwneud â thoddyddion neu gyffuriau, gan yn aml mae'r rheini yn teimlo mai arnynt hwy mae'r bai fod hyn yn digwydd. Nid yw'r broblem yn gyfyngedig o gwbl i un sector o gymdeithas nac ychwaith i fagwraeth y plentyn.

Mae'r ifanc yn naturiol abrofol, ac fel yr arbrofodd eu rhieni drwy smocio dail carn yr ebol neu llynyn felly hefyd yr arbrofi heddiw gyda thoddyddion a chyffuriau. Y gwahaniaeth yw fod y peryglon heddiw yn llawer mwy. Gall pwysau cyfoedion fod yn elfen gryf ym mywyd yr ifanc a'r ofn o gael ei labelu yn "ckicken" yn eu gwrthio i wneud pethau sydd yn arferol allan o gymeriad. Mae'r arddedau yn amser cythryblus yn gorfforol a meddyliol a'r elfen i wrthdaro ag awdurdod a herio peryglon yn gryf.

Gall yr arbrawf gyntaf gyda thoddyddion neu gyffuriau fod yn brofiad pleserus neu yn ddychryn, gall fod â dim ôl-ffeithiau neu adael y person yn sâl, neu gyda 'phen mawr' fel ar ôl yfed alcohol! Penderfyna'r rhan fwyaf, ar ôl arbrofi nad yw toddyddion a chyffuriau mor ddeniadol ag y gwneir allan gan eu cyfoedion. Ond yn drist i leiafrif llenwa'r cyffur neu glud ryw wagle yn ei bywyd. Er enghraifft gall y cyffur cannabis a thawelyddion eraill leddfu eu pryderon am gyfnod neu gall cyffuryddion oresgyn eu swildod a rhoi hyder ffug iddynt, eto dros gyfnod. Gan mai byr yw'r effaith mae'n arwain i ail ddogo a'r meddwl mai dim ond o dan effaith y cyffur mae posibl dygymog â bywyd; ac yna i ddogo mwy neu ddogo amlach, ac yn fuan i ddibyniaeth. Daw dibyniaeth pan fo'r corff â'r ymennydd wedi arfer yn gemegol i'r cyffur fel na allant weithredu'n normal heb eu dogno.

Wrth drafod sumptomau a sut i adnabod arwyddion o gymryd cyffuriau a thoddyddion rhaid peidio neidio i benderfyniadau anghywir. Mae'r sumptomau a restrir yn gallu cael ei effeithio gan bethau ar wahân i gyffuriau a thoddyddion.

Un o'r effeithiau cyntaf i sylwi arno yw y newid cymeriad, gall person oedd yn siaradus a chlên newid dros gyfnod i fod yn dawel a mewnblyg a thymher fyr. Mae newid

ffrindiau, ac agwedd at ffrindiau hefyd yn arwyddocaol yn arbennig os yw'n gysylltiedig a dirywiad yn eu hymddygiad. Sylwch os oes newid yn eu diddordebau a'u perfformiad yn yr ysgol neu goleg a'r presenoldeb, maent oll yn gallu pwyntio at y posibilrwydd o ymwneud â chyffuriau. Fel y nodwyd eisoes gall yr oll o'r uchod fod yn gysylltiedig â'r arddedau hefyd a gwelwch pa mor anodd yw i fod yn sicr o beth yw'r achos. Yr unig ffordd yw i drafod yn synhwyrol a di-emosiwn am y broblem.

Os yw person yn aroglï glud neu doddyyddion eraill yn aml glynar arogl ar y dillad am amser, mae hyn yn wir am ysmegu cannabis sydd ag arogl persawr arno. Fel arfer mae aroglwyr glud yn flêr dan yr effeithiau ac yn aml ceir darnau o lud yn y gwallt neu ar y dillad. Peryglon aroglï toddyddion yw ei fod y ffordd gyflymaf i gael effaith ar y corff a'r ymennydd gan fod y 'vapour' yn cyrraedd y cylchrediad gwaed heb orfod trafaelio drwy'r iau fel cyffuriau sy'n cael eu llyncu. Does ychwaith dim rheolaeth gan yr aroglwr ar y ddogo a hawdd yw disgyn i stad anymwybodol.

Rhaid cofio hefyd fod modd aroglï cyffuriau fel cannabis, cocaine ac opium a does dim rhaid cael nodwyddau.

Anodd yw dweud y cyfan mewn erthygl heb efallai esgor ar ragor o arbrofi a'r bwriad yw i roi rhywfaint o wybodaeth a chyswllt lle gellir cael mwy. Carwn eto i bawb nodi fod y rhifau ffôn isod ar gael i unrhyw un sydd â gwybodaeth neu ei angen.

Gwyndaf Jones
(Uwch Swyddog Lles)

**TAITH FEICIO NODDEDIG
Y swm terfynol a gasglwyd
gan feicwyr Llanrug oedd
£405.
DIOLCH I BAWB**

ATODIAD LLANRUG

Yn ystod y gwasanaeth fore Sul ym Mhonrhythallt, gyda'r Parch H. Gwynfa Roberts yn gwasanaethu, bu Sacrament o fedydd, pryd y bedyddiwyd Geraint Iwan, mab Iwan a Gwenda Roberts, Pendyffryn.

SYLWER

Trist yw nodi hyd yn oed wedi'r drychineb, y dangos ffilmiau, y cyfarfod â'r rhieni, ac erthygl y mis diwethaf i ni ddod ar draws aroglï 'creosote' yn un o bentrefi Bro'r Eco. Cafwyd hyd i'r fangre lle bu'r aroglï a dylai unrhyw riant sydd wedi aroglï 'creosote' ar eu plant yn ddiweddar holi ymhellach neu gysylltu os am gymorth.

COFIWCH

Os oes gennych unrhyw wybodaeth, pa mor bitw bynnag, neu'n angen gwybodaeth ynglŷn â'r broblem yma, dowch i gysylltiad ag unrhyw un o'r canlynol:

P.C. Oscar Evans (Swyddog Cyswllt Heddlu) Caernarfon 3333, Gwyndaf Jones (Uwch Swyddog Lles) Caernarfon 4121 est 2215, W.E. Thomas (Prifathro Ysgol Brynrefail) Caernarfon 2381.

DRANNOETH Y FFAIR

Daeth ail gyfres Drannoeth y Ffair i S4C nos Fercher, 12 Chwefror. Yn union fel cyfres y llynedd recordiwyd y perfformiadau yn fyw o flaen cynulleidfaoedd brwdfrydig yn y Majestic, Caernarfon.

Dyweddodd llefarydd ar ran Teledu Tŵr o Fangor, y cwmni sydd yn gyfrifol am y gyfres 10 wythnos, bod tair gwahanol elfen i'r rhaglenni.

"Rydym o'r farn mai dim ond mewn awyrgylch 'Fyw' o ddifri y ceuch y gorau o grwpiau roc. Yn anffodus mae'r mwyafrif o raglenni roc ar y bocys boed yn Gymraeg neu Saesneg wedi eu recordio mewn stiwdio oeraidd amheronol. Felly anos yw ceisio ail-greu'r awyrgylch fywiog a geir oddi ar lwyfan. Teimlwn ein bod wedi llwyddo i raddau gyda'r gyfres hon."

Elfen bwysig arall yw'r amrywiaeth. Yn ogystal â chynnwys wyth o brif grwpiau roc Cymru sef Geraint Jarman, Llwybr Cyhoeddus, Louis a'r Rocys, Blues Bunch, Simon Fisher, Maffia Mr Huws, Y Brodyr a Ray Jones, gwahoddwyd pedwar o'r tu allan a wnaeth farc ar lefel ryngwladol yn eu meysydd arbennig.

"O bosib yr un o ddiddordeb

mwyaf i ni Gymry yw Runrig o'r Alban. Er mai yn y Gaeleg y mae'r mwyafrif o'u caneuon ni fu hyn yn rhwystr iddynt wneud marc y tu allan i'w gwlad. Bellach maent yn un o'r prif grwpiau gwerin-roc ar y cyfandir yn chwarae i gynulleidfaoedd enfawr yn gyson."

Y tri arall yw Misty in Roots, prif grŵp reggae Prydain, Somo Somo o Zaire yn yr Affrica a Flaco Jimenez o San Antonio, Texas. Cydnabyddir ef fel prif artist cerddoriaeth Tex Mex yn y byd cerddoriaeth sydd â'i wreiddiau'n ddwfn mewn diwylliant Sbaeneg ardal ffin Texas a Mecsico.

Yr elfen bwysicaf, yn ôl llefarydd, yw'r ffaith fod y pwyslais yn y gyfres ar y gerddoriaeth.

"Er bod elfennau cylchgrawn, cyfweiliadau ac ati, teimlwn mai'r prif nod, a'r hyn mae'r gwylwyr am ei weld, yw canolbwyntio ar y gerddoriaeth. Mwy o hwnnw a llai o siarad."

Cyflwynwyr 'Drannoeth y Ffair'.

CYSTADLEUAETH

M	O	R	T	U	N	E	W	R	Y	R	E
D	A	I	N	W	A	N	S	A	N	I	D
S	F	F	E	N	E	S	T	R	I	A	S
A	S	W	F	F	R	Y	C	Y	I	M	T
N	R	A	E	I	A	N	I	D	D	A	E
A	A	G	A	R	A	M	U	R	S	L	V
D	O	S	T	R	S	M	N	U	W	F	E
A	R	L	O	G	Y	W	R	C	B	F	E
H	S	P	O	S	P	D	T	H	I	N	A
G	A	R	L	I	W	N	O	N	U	E	V
W	F	I	C	A	R	M	S	R	W	W	E
B	A	N	H	R	E	F	N	L	B	H	S

Mae dwy ran i'r gystadleuaeth

(1) Chwiliwch am 15 o grwpiau pop Cymraeg sydd wedi eu cuddio yn y sgwâr. Rhaid edrych yn ofalus - i fyny ac i lawr, yn ôl ac ymlaen ac ar y croeslinellau.

(2) Enwch gyflwynwyr 'Drannoeth y Ffair' - mae tri ohonynt - fel y gwelwch yn y llun!

GWOBR

Crysau 'T' 'Drannoeth y Ffair' i'r ddau ateb cywir cyntaf a ddaw i law.

Atebion i: Edward Elias, Gwen y Wawr, Glanffynnon, Llanrug
erbyn: dydd Mercher, Mawrth 20fed

CYNLLUN HYFFORDDI'R IFANC

Yn ddiweddar cyhoeddwyd newidiadau i'r hyn a gynigir i bobl ifanc o dan nawdd Cynllun Hyfforddi'r Ifanc (Y.T.S.).

O Ebrill 1986 bydd:

- *Cynllun dwy flynedd i bobl ifanc 16 oed gydag o leiaf 20 wythnos o gynnod hyfforddiant yn ogystal â phrofiad gwaith.
- *Cynllun blwyddyn i bobl ifanc 17 oed, gydag o leiaf 7 wythnos o hyfforddiant yn ogystal â phrofiad gwaith.
- *Cyfle i ennill cymwysterau cydnabyddiedig.
- *Cytundeb hyfforddi i bawb sydd ar y cynllun.
- *Hyfforddiant o safon cydnabyddiedig cenedlaethol.

BETH YW'R CYTUNDEB HYFFORDDI?

Mae'n ofynnol i'r cynllun gynnwys manylion am eich hawliau a'ch cyfrifoldebau a ch y f r i f o l d e b a u ' r cyflogwr/hyffordwr.

Bydd yn cynnwys manylion am:

- *gyflog/costau teithio
- *gwyliau
- *salwch, iechyd a diogelwch
- *hawliau cyfreithiol
- *manyion y cynllun hyfforddi

FAINT O GYFLOG?

Cynllun 2 flynedd (pobl ifanc 16 oed)

- *£27.30 yr wythnos am y flwyddyn gyntaf
- *£35.00 yr wythnos am yr ail flwyddyn

Cynllun Blwyddyn (pobl ifanc 17 oed)

*£27.30 yr wythnos am yr 13 wythnos gyntaf

*£35.00 yr wythnos am y gweddill (9 mis)

Bydd ad-daliad o gostau teithio dros £3.00 yr wythnos.

ORIAU GWAITH/ GWYLIAU?

Fel rheol, ni fydd eich oriau gwaith yn fwy na 40 awr yr wythnos.

Bydd gennych hawl i 18 diwrnod o wyliau gyda thâl yn ogystal â gwyliau cyhoeddus a banc.

GWYBODAETH BELLACH

Swyddfa Gyrfaoedd

2 Stryd y Castell

Caernarfon

Ffôn: Caernarfon 4121 est 2221

Theatr Crwban yn cyflwyno Y BRIODAS



Gyda
Rhian Cadwaladr,
Llanberis

Canolfan Gymdeithasol
Llanberis

Nos Lun, Mawrth 24ain
am 7.30 p.m.

Oedolion 1.50

Plant a Phensiyn wyr £1.00

Cysylltwch â Bryn Parry, 76 Stryd Fawr,
Llanberis 870 455, hefyd Cymric Stores

GLASGOW 1938

Atgofion Goronwy Owen

Ochndeiodd un neu ddau, a disgynnodd gwep bron bawb. Arwydd gwael ar ddechrau trip ysgol oedd clywed a gweld y ffasiwn siom. Mynd i'r Arddangosfa Ymerodraeth Brydeinig yn yr Alban yr oeddem. Cudasom cyn cyfarth cwnn Caer, disgyblion hanner dwsin o ysgolion Arfon, ac wrth fynd drwy ddwnel Bangor, dyma ni yn dangos ein siomedigaeth mor gynnar yn y bore. 'Dach chi'n gweld, yn ôl greddf ieuencid, roeddni ni, y rhai hyna, eisoes wedi sortio'n hunan yn barau cariadus, gan obeithio cael cusan fach neu ddwy yn nhywyllwch y twneli, ond roedd y lampau yn para i olau, er bod y wawr eisoes wedi torri. Gwaeth fyth, roedd llygaid craff y dirprwy brifathrawon yn gofalu ein bod yn byhaffio'n hunain.


Ni chredaf fod yr un ohonom erioed wedi mynd lawer ymhellach na Lerpwl neu Manceinion. Roedd Gogledd Prydain yn wlad ddieithr i ni i gyd. Dyma'r amser yr oedd cystadlu brwd rhwng y rheilffyrdd am y drên gyflymaf o'r Alban i Lundain, ac er mai Mallard yr L.N.E.R., oedd y gorau, roedd gweld 'Silver Arrow' yr L.M.S. yn brofiad bythgofiadwy, wrth iddi fflachio heibio, yng nghyffiniau Carlisle.

Deunaw swilt a chwe cheiniog oedd pris y trip, sef o gwmpas hanner isrif cyflog wythnos yn y chwarel, ac roedd pecyn o frechdanau yn lluniaeth gan bawb.

Oedd, roedd y siwrna yn addysgol, ac yn llawer gwell na'n llyfrau, i gyfleu ysblander yr Indiaid Cochion, a gwisgoedd y 'Mounties' o Canada, hudolaeth bwmyrang a

chelfi cyntefig yr Aborigini o Awstralia, y Moari o Seland Newydd, a phwysigrwydd y llongau celloedd iâ oedd eisoes yn dod â chig oen i ni o'r wlad honno. Ond pafiliwn De Affrica sydd yn dal i sefyll allan yn fy nghof, ac am ddau reswm. Ynddo roedd model drigain llath o hyd, o'r Ceunant Fictoria, y dwr yn rhuthro dros glogwyn bum troedfedd o uchder ymysg coed dieithr mewn poethder trymaidd tu hwnt i'n profiadau. Yno hefyd yr oedd siop enfawr, y muriau a'r cownteri, y lloiau a'r nenfwd, wedi'u gwneud o ddrychau, y cyfan yn orlawn o'r ffrwythau mwyaf estron a welsom erioed, a'r cwbl yn cael eu hadlewyrchu ym mhob cyfeiriad.

Doedd yr un ohonom ag arian i'w wastraffu, ac yn ogystal, edrychem ymlaen am rhyw awr fach yn y ffair,



sydd bob amser ynghlwm wrth bob arddangosfa. Ynddi, roedd y Ffigiwr Wyth mwyaf yn y byd ar y pryd - helter-skelter dros hanner milltir o hyd.

Wrth eistedd i lawr yn y trên i ddychwelyd adra, ar y bwrdd o'n blaenau, roedd swpyn mawr melys o rawnwin duon, a 'pine apple' cyfan yn ei groen. Fel y gŵyr pawb, mae'r gwair bob amser yn lasach yr ochr arall i'r afon. Hogan bach ddel o Lanbabo oedd yn eistedd wrth fy ymyl i'rannu'r danteithion atyniadol hyn. Do fe gawsom sbort, yn enwedig wrth geisio rhannu'r 'pineapple' hefo cylllell boced di-fin, ond roedd yna un broblem yn dal i'n poeni, sef y goleuadau gebyst 'na.

Oeddem, roeddem yn lawer rhy swil i gael 'spoon' fach yng ngolwg ein cyfeillion, a doedd yr un

ohonom yn ffansio cael ein dal yn cusanu gan Robert Morris neu Gwyneth Evans. Doedd neb yn gwybod beth fyddai'r canlyniadau. Cosfa gan y prifathro, llythyr i'n rhieni neu efallai ein diarddel o'r ysgol? Peidiwch â chwerthin da chi. Fel hyn roedd cymdeithas yn ein codi a'n magu, ac roedd torri'r rheolau yn ennyn gwarth.

Do, fel solfwyd y broblem. O do, yn bendant.

Diolch i un disgybl gwallt golau o Lanrug, gwyddonwr llwyddiannus yn arholiadau C.W.B., fe gawsom hanner awr bach hyfryd yn y tywyllwch, cyn i'r golau gael eu cywiro.

Roedd hi'n syndod beth allech chi wneud hefo llwy de ym mocus ffiws yr hen gerbydau 'na.

Trip addysgol, ffrwythau exotic a chusan fach felys - pa ddisgybl Chweched Dosbarth allai ofyn am fwy?

Gyda diolch i Mrs Menna Williams, Minffordd, Llanrug am y wybodaeth.

ER COF AM "ANTI JENNIE"

Cafwyd yr hanesyn hwn allan o 'Gemau Y Cymro' 25 mlynedd 1932-1957.

Pigion o'r straeon mwyaf diddorol a ymddangosodd yn 'Y Cymro' yn ystod y chwarter canrif.

Gwraig fach gron, yn gloff o'i chlun, ydoedd gyda llygaid caredig a thipyn o chwerthin ynddynt, ac am dros ddeng mlynedd ar hugain bu'n "fodryb" i do ar ôl to o blant y pentref. Hi oedd 'Anti Jennie'. Pe soniai rhywun wrth blant Cwm-y-glo am Miss Jennie Roberts, Glanbogelyn, ni wnaent ond edrych yn syn. Ni byddai hi yn neb iddynt felly. Ond pe soniech wrthynt am "Anti Jennie" - wel, wrth gwrs, fe wyddent pwy oedd hi. Ni buasai ond un felly yn y pentref erioed, yn "fodryb" i bawb yno.

Sut y cafodd yr enw? Dim ond wrth fod yn angerddol hoff o blant a bod yn rhyfeddol o garedig wrthynt. Waeth heb na cheisio esbonio'r peth. Un felly oedd hi.

Am flynyddoedd bu "Anti Jennie" yn gwerthu oel lamp, ond nid yn ôl egwyddorion cydnabyddedig busnes ychwaith. "Rho fesur go dda iddo," fe ddywedai wrth un o hogiau Glanbogelyn. Byddai hi yn adnabod y plentyn a ddeuai i gyrchu'r oel, ac oherwydd hynny ni allai fod yn gynnill.

Prin yr âi yr un plentyn oddi wrth y drws heb geiniog neu dda-da neu deisen. A phan âi'r plant i hel llus

neu fwyar duon er mwyn cael tipyn o bres poced, un o'r tai cyntaf i gyrchu iddo gyda'r potiau jam oedd Glanbogelyn. Fe brynai hi y ffrwyth pa un a fyddai arni eu heisiau ai peidio. Ni allai hi siomi plentyn. Felly byddai'r potiau llus a mwyar duon yn ymgasglu'n rhesi ar y sillfioedd - mwy o lawer nag a allai eu defnyddio.

Byth er pan ddaethai i ofalu am deulu Mr D.S. Jones yn 1917 daeth yn ffefryn pobl y pentref yn arbennig y plant. Pan gâi plentyn ddillad newydd fe fyddai'n rhaid cael eu dangos i Anti Jennie a chael ceiniog yn y boced. A bob dydd o'r

wythnos byddai'r plant yn galw ac yn gofyn "Oes arnoch eisiau neges heddiw, Anti Jennie?" Gallai hyd yn oed ddenu'r adar i'r tŷ i fwyta oddi ar y bwrdd.

Pan ddylifodd y ffoaduriaid i ddosbarth Gwryfai ar ddechrau y rhyfel daeth Hazel fach o Lannau Merswy i aros gydag 'Anti Jennie' er ei bod eisoes yn gofalu am deulu o bump neu chwech.

Yna, dair blynedd yn ôl, daeth llesgedd a'i chaethiwodd yn y tŷ. Ond bob dydd galwai'r plant i ofyn a oedd 'Anti Jennie' yn well a gofyn a oedd arni eisiau neges. Tua'r Nadolig bu raid mynd i orwedd, ond drwy'r ffenestr y llofft parhai i wrando ar firi'r plant ar y ffordd ger y tŷ; a gwyddai eu bod wrth y drws bob munud yn holi amdani. Ac yn y Cwm yr oedd pobl mewn oed yn holi "Sut mae 'Anti Jennie' heddiw?"

Dydd Mercher yr wythnos diwethaf bu "Modryb" y pentref farw yn 74 mlwydd oed, a daeth y pentref â'i flodau i'w hangladd.

Idris Roberts

Chwefror 2, 1951

PWY YW 'SYLWEDYDD'?

Diolch i 'Sylwedydd' am yr erthygl arbennig a anfonodd atom yn ddiweddar. Yn anffodus ni fydd yn bosibl cyhoeddi'r sylwadau o'i eiddo/heiddo oni bai fod un o'r golygyddion yn cael ei enw a'i gyfeiriad.

Felly 'Sylwedydd', pwy bynnag ydych, anfonwch air os gwelwch yn dda.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574 PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta Archebion ar gyfer y rhewgist


MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562



ARIAN YN DYLIFFO I'R ARDAL – OND PWY SYDD I ELWA ARNO?

YN YSTOD yr wythnosau diwethaf daeth newyddion ynglŷn â buddsoddiadau sylweddol o fewn ardal bro'r 'Eco'. Canlyniad dau gymorthdal ydynt, y naill o'r Swyddfa Gymreig, a'r llall o'r Gymuned Ewropeaidd. Pentref ac ardal Llanberis sydd i elwa o'r ddau swm hwn o arian.

Daw'r swm o £85,000 o Gynllun Cymorth Trefol y Swyddfa Gymreig, a dyma fydd y gyntaf o'i bath o fewn Arfon. Nid yw'r penderfyniadau terfynol ynglŷn â sut i wario'r arian wedi eu gwneud eto, a gobeithir galw cyfarfod cyhoeddus yn Llanberis i drafod y cynllun gydag aelodau o'r Cyngor Sir, Cyngor Arfon, Cyngor Cymdeithas Llanberis, siopwyr a masnachwyr lleol, Cymdeithas

Dwristiaeth Llanberis ac unrhyw un arall o'r cyhoedd sydd â diddordeb. Rhai awgrymiadau ynglŷn â defnyddio'r arian yw – plannu coed a thirlunio, peintio strydoedd, tacluso'r pentref a'r ardal yn gyffredinol. Beth yw eich syniadau chwi, bobl Llanberis?

Daw'r ail swm o arian – grant o £200,000 – o Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Mae'n rhan o'r cynllun sydd ar droed yn barod i

wella Gwesty Copa'r Wyddfa. Yn ôl swyddog o'r Parc Cenedlaethol, ni fydd y grant hwn yn clirio'r gost, ond yn unig yn talu am hanner y gwaith sydd angen ei wneud. Bydd y cynllun cyfan yn costio hanner miliwn o bunnau, a cheir cyfraniadau tuag ato gan y Comisiwn Cefn Gwlad, Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Twristiaeth Cymru.

Mae'r gwaith allanol ar y Gwesty – y waliau a'r to – eisoes wedi ei gwblhau, a bellach, mae lle i aros dros nos yno i staff y Parc Cenedlaethol a staff Cwmni'r Rheilffordd. Eleni, bydd y gwaith o adnewyddu tu mewn y gwesty yn mynd ymlaen. Mae angen ail-oleuo'r holl adeilad, dodrefnu'r siop a'r gwesty, a sefydlu Canolfan Wybodaeth o fewn yr adeilad.

MERCHED Y WAWR RHANBARTH ARFON

Yn yr Aelwyd yng Nghaernarfon ar Ionawr 18 cynhaliwyd cyfarfod i drefnu'r gweithgareddau ar gyfer y gwanwyn a'r haf. Eluned Bebb Jones oedd yn y gadair, â Hafwen Roberts, ysgrifennydd, a chynulliad da o'r canghennau.

Ar hyn o bryd y rhai sy'n cynrychioli Merched y Wawr yn gyhoeddus yw Margaret Jones, Penygroes ar Bwyllgor Defnyddwyr y Bwrdd Dŵr, a Jean Evans, Dinas ar Bwyllgor Ymgynghorol Heddlu Clwyd a Gwynedd. Enwebwyd hefyd Eluned Bebb Jones ar gyfer penodiad ar Awdurdod lechyd Gwynedd.

Yn sicr fe fydd pabell gan Ferched y Wawr ar Faes Eisteddfod yr Urdd yn Nyffryn Ogwen. Hefyd trefnwyd Gŵyl Genedlaethol yn y Drenewydd ar Sadwrn 14 Mehefin ac fe roddir yr holl elw i goffrau'r Urdd. Dyna'r diwrnod pryd y cynhelir Cystadlaethau Terfynol y Chwaraewr yng Nghaernarfon Adloniant Maldwyn. Erbyn hyn mae rhai canghennau wedi cyfrannu i'r Urdd – plant Llanrug wedi casglu dros £300 drwy feicio o gylch eu hardal.

Trefnodd y Pwyllgor Celf a Chrefft Ymweliad ag Arddangosfa'r Ideal Home yn Llundain ar 4 o Fawrth – dylasai'r enwau fod i mewn cyn diwedd Ionawr. Fel arfer mae yna daith fawr Genedlaethol – i Rwsia ddiwedd yr haf, ond deillir fod pob lle wedi ei gymryd yn barod. Ond mae yna le o hyd yn yr Ysgol Breswyl yng Nghaerfyrddin 19-21 o Fedi. Y pris yw £35 – blaendâl o £20 erbyn mis Mai.

Daeth eto amser i enweby ar gyfer Is-lywydd Cenedlaethol – o'r de y tro hwn, a chynigwyd enw Mair Elvet Thomas o Gaerdydd. Ymhen amser cawn restr o dri neu bedwar enw ar gyfer y bleidlais.

Eleni mae yna gystadlaethau di-ri – fe gewch y manylion yn eich canghennau. Cofiwch am Lanelwedd, a chofio am Eisteddfod Abergwaun.

PROFEDIGAETHAU'R BRODORION

Gan John Williams

MAE 'NA adroddiadau wedi bod yn y wasg am weithgareddau'r fandaliad lleol yn swabia Llanrug, a'u dulliau diweddaraf o ddifrodi, ond anaml y clywir sôn am yr alanas amhrisiadwy a wnaed yn ystod y blynyddoedd gan y rhai sy'n gallu fforddio ymgymryd â'r grefft yma ar raddfa broffesiynol – y rhai galluog rheiny – sydd wedi drysu rhediad dŵr glân i blwyf cyfan, wedi difetha harddwch Penllyn a lladd y torgoch, a gyrru cenedlaeth o bobl ar ddisberod drwy rwygo nyddiad eu bywyd cymdeithas a tharfu ar ddiddanwch eu haelwydydd, ac yn y diwedd, ar ôl cael y gorau allan ohonynt, eu taflu ar domen fel hen gelfi, a'r cwbl, fel cyfanrif, yn ddyledus yn erbyn breuddwyd maharaja o gladdu cawrfil gwyn o dan fynydd.

Ac fel ffurf o iawn, mewn ysbryd o edifeirwch pur, mae'r brodor wedi ei anrhegu yn anrhydeddus â mausoleum o'r enw Oriol Eryri, o flaen pa un y disgwylir iddo daenu ei fatin weddi ac ymostwng yn wylaidd i dduwiau'r mynydd am eu mawr drugaredd.

Ond rhyw sied ddigon diserch y cefais i hi, yn llawn o rhywbeth neu ddim, o dan do pa un y buasai dyn doeth ond yn dianc i osgoi cawod Ebrill.

Dwedwch a fynnoch; ansicrwydd sydd yn tarfu pobl fel meirch mewn corwynt.

Beth ydy bwriad y pansyr o beiriannau melyn sydd yn cloncian i lawr y lôn? Ai wedi dod i drwsio ffiws yn lamp y stryd y maent neu a

ydynt dan orchymyn i ddymchwil eich tŷ i wneud lle i faes picnic arall?

Ai eich dyn yswiriant a'i arolygwr yw'r ddau grwmffast sydd newydd gyrraedd yn y car smart, neu ddau yn chwilio am losgwyr tai haf a'u bryd ar eich llusgo i bennyd wasanaeth amhenodol ar dystiolaeth wedi ei chribo o'r archifau fod cyfynder eich taid unwaith wedi rhoi'r cwrldd ar dân wrth smocio yn ei wely?

Pwy yw'r dieithryn sy'n llercian yn y lôn bach? Mewnforiad diweddaraf mewn dewiniaeth o'r lywodraeth leol yn ceisio cael pen llinyn ar y llwybr cyhoeddus, ynteu eldrych o rhyw stryd gefn wedi cael ofar dds o gaws llyffant ac wedi torri allan o 'reservation' yr hipis lleol?

Ai un o weision Bwrdd Dŵr (Budr) Cymru yw'r llanc sy'n sefyll yng nghanol y lôn a pheipen yn ei law, ac wedi dod i ollwng dipyn o ddŵr gwartheg o'r heidriant, ynteu rhyw fygar mewn ofarols yn disgwyl dychweliad hen wraig drws nesaf ar ddiwrnod pensiwn?

Ydy'r JCB ar y ffridd yn rhwygo'r eithin i wneud trac i feics cacwn yn mynd i rwygo hedd a hyfrydwch eich hwyrnos haf?

Ac yng nghae pwy mae'r Fwch Wen Sanctaidd am bori yr haf yma – y twrist ymwelgar? Ble yr aiff o? Ddigon pell meddai rhai, i brynu cnegwarth o haul, ac i le sy'n gwerthu mwy ohono fo, ac yn rhatach na swabia Llanrug.



Beirniad y Ffug Eisteddfod yn mwynhau'r cystadlu!

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
– ALLWCH CHI Fforddio prynu o batrymau?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

TAITH AR GOMED HALEY

Daeth TELOR HEDD IWAN o'r Waunfawr yn ail ar gystadleuaeth 'Helo Bobol' a gynhaliwyd cyn y Nadolig, 1985. Roedd y gystadleuaeth yn agored i unrhyw un o blant Cymru dan 15 oed. Cryn gamp felly i Telor, sy'n 12 oed, ddod mor agos i'r brig mewn cystadleuaeth a ganmolwyd yn arw gan y beirniad, y Prifardd T. Llew Jones. Pleser gennym gael gyhoeddi y stori a ddaeth mor agos i gipio'r wobr gyntaf. Da iawn, Telor. Beth am stori arall i 'Eco'r Wyddfa'?

1985

Seryddwr amatur oedd Rhys. Dablo ers ryw ddau fis a'i eisiau mwyaf oedd gweld Comed Haley. 'Ry'ch chi'n gweld, pymtheg oed oedd Rhys, ac yr oedd ef o'r farn, mewn 76 mlynedd arall, byddai ef wedi marw! Felly, pob noson, archwiliai'r nen gyda'r unig obaith, mai ef fyddai'r cyntaf i weld y Gomed yn yr ysgol, ac efallai drwy Gymru! Heno, yr un fath, eisteddai ar ei stôl isel gan syllu drwy wrthrychiadur main y telescôp.

Bu bron i Rhys ddisgyn oddi ar y stôl, wrth iddo weld y golau gwyrdd llachar yn ymddangos o unlle. "Na," meddai Rhys yn uchel wrtho'i hun, "di o ddim yn wyrdd!" Ffliciodd Rhys dudalennau un o'i amryw lyfrau a daeth i'r farn nad oedd wedi gweld y gomed. Ond beth oedd y golau oedd yn ymddangos i ddod yn agosach? 'Roedd ceg Rhys yn hollol agored a'i dafod yn rhwlio o gwmpas yn ei geg. Erbyn hyn 'roedd y golau wedi ffurfio i siâp hirgrwn gwyrdd. 'Roedd Rhys yn edrych, nid ar gomed, ond ar un o'r UFO's!

Ar ôl deng munud o wyllo'r siâp, disgynnodd rhywbeth tebyg i sach o datws o'r awyr i'r goedwig gyferbyn â thŷ Rhys. Cododd Rhys ei ben cyrliog o'r telescôp a chau ei geg, dim ond i'w agor unwaith eto. Meddyliodd fod yr UFO wedi ffrwydro, ond nid oedd yna fflam na mwg i'w gweld yn dod o'r goedwig. Penderfynodd Rhys archwilio. Aeth i'r garej i mofyn ei feic, ond fe glywodd ei fam sŵn y drws yn agor. Rhuthrodd Rhys i'r lôn i gyfeiriad y goedwig. "Rhys, Rhys, ble wyt ti'n mynd?" Ond doedd Rhys ddim eisiau ateb ei fam. Er bod y goedwig ond ryw hanner milltir o'i ystâd, 'roedd Rhys wedi ymlâdd yn llwyr wedi iddo gyrraedd yno, gan ei fod yn reit dew a dim yn ryw ffit iawn. 'Roedd rhyw gynhesrwydd o'i gwmpas wrth iddo archwilio'r goedwig â'i lamp beic. Ond yna, arhosodd Rhys yn hollol llonydd wrth iddo syllu ar yr olygfa o'i flaen. Ni fedrai feddwl symud na siarad. Gollyngodd ei lamp a daliodd i syllu yn geg-agored. O'i flaen 'roedd cylch o goed wedi eu llosgi i'r llawr a'r pridd yn galed a mwg yn codi oddi yno, ac, yng nghanol y cylch, yr oedd y llong ofod werdd a hirgrwn yn sefyll ar chwe postyn haearn â gwaelodion crwn. Ar hyd yr ochrau yr oedd ffenestri crwn, (fel y rhai sydd ar ochrau llongau), ac ymhobman yr oedd goleuadau gwyrdd llachar. Wrth i Rhys syllu ar hyn i gyd agorodd ddrws yn ochr y llong a gwelodd Rhys ffigwr person yn nhop y grisau serth, cododd hwnnw ei fraich a'i amneidio ato. Dringodd Rhys y grisau serth a chamodd i mewn i'r llong ofod.

Heb i un o'r ddau yngan gair hebryngwyd Rhys i ystafell fechan ag un gwely ynddo, ac uwch ben y gwely 'roedd un o'r peiriannau a welir mewn siop torri gwallt lle mae gwallt hen ferched yn cael eu sychu!

Rhodddwyd pen Rhys ynddo a throdd y peiriant yn wyn. Ar ôl munud neu ddau cymerodd y dyn

bach main y peiriant oddi ar ei ben a dweud, "Croeso i'r llong, Rhys. Fy enw i yw Sandor, ac 'rwyf newydd ddysgu dy iaith hefo'r peiriant yna." Pwyntiodd Sandor at y peiriant a roddwyd ar ben Rhys.

"Tyrd," meddai wedyn. "Tyrd i weld fy 'nhad."

"Croeso i long 54-56, sector wyth. Mae'n rhaid iti gredu beth sy'n cael ei ddweud wrthot nawr. 'Rydym ni, yr Haliaid yn byw ar Haley, neu y gomed Haley iti."

"Ond, na, na."

"Ust, Rhys. Gwrandawa, ac wedyn cei ofyn cwestiynau. Ein gwaith ni fel cenedl yw gwerthu a phrynu, felly, mae'n gofyn trafailio llawer, mi fuasai llongau gofod yn gwneud yn iawn ond dydyn nhw ddim digon mawr. Y mwyfa mae'r llong yn mynd, yr arafach mae'n trafailio. Felly, 'roedden yn chwilio am rywbeth i'n cario o gwmpas y Bydysawd, yn gyflym a digon o le arno, mae'r Gomed chwe gwaith mwy na'r ddaear, felly be'n well na'r Gomed. 'Dyw arwynebedd y Gomed yn ddim ond rhew a nwyon, dim carbon deuocsid, ac heb hwnnw mi fyddwn ni farw, yn union fel petaent yn peidio cael ocsigen. Hwda, cymer hwn, mae yna danc o aer tu ôl iti."

Rhodddodd tad Sandor danc iddo ac anadlodd Rhys yr aer. Aeth at y ffenest a gwelodd ei fod yn y gofod, yr oedd anturiaethau diwrnod wedi bod yn ormod iddo. Aeth popeth yn ddu, a llewygodd.

Agorodd Rhys ei lygaid, ond beth oedd hyn? Dim Mark Hughes ar y wal. I fod yn gywir doedd dim wall! Dim ond waliau clir o wydr. Edrychodd ar ei wisg. Gwisg werdd ydoedd, a choler uchel, ar ei arddwrn 'roedd wats, a theledu bychan arno. Yna, fflachiodd rhywun ar y sgrîn, "Helo Rhys," ebe'r llais.

Wrth gwrs, 'roedd popeth yn dod yn ôl iddo, Sandor oedd y person yma.

"Ym, ia. Helo, Sandor," meddai Rhys yn ddryslyd. Yna, dangosodd un o'r waliau a daeth Sandor i mewn a'i gusanu ar ei glust.

"Ysgwyd llaw i chi," meddai gan wenu.

Hebryngwyd Rhys drwy amryw o goridoriau, nes dod o'r diwedd i'r neuadd anferth. Yr oedd cannoedd o bobl o'i flaen ac yr oedd yna un llwybr rhyngddynt, ac ym mhen y llwybr yr eisteddai dyn bach. Cerddodd Rhys ato, yr oedd pobman yn dawel.

Yr oedd gan y dyn bach wallt hir



gwyn a gwisg werdd, a oedd ddwbl ei seis. Ond os oedd ei gorff yn fach, yr oedd ei law yn gwneud i fyny am ei faint pitw. "Myfi yw SAMSAN," taranodd ei lais, 'Doedd Rhys ddim yn deall pam y dylai weiddi, oherwydd 'roedd pawb yn gwybod beth oedd ei enw. "Myfi yw Samsan," dechreuodd siarad yn is yn awr, "rheolwr yr Haliaid. Croeso, Rhys, i gomed Haley." Crynodd wyneb Samsan wrth iddo siarad.

"'Rydym ni ar y ffordd i'r blaned Meriwri i werthu dŵr, mi fuaswn yn hoffi dangos y lle iti, ond mae'n llawer rhy boeth yno. Cei weld pob dim oddi yma tan y blaned Mars. A oes gennyt unrhyw gwestiwn? O! gyda llaw, iaith hyfryd yw hon, Saesneg ie?"

"Naci," ebe Rhys, "Cymraeg. O ia, Samsan, am faint fydda'i yma?"

"O dim ond am flwyddyn, Rhys. Ddim yn llawer, Rhys. Wel, bobl," meddai Samsan, gan gyfeirio at y bobl a oedd yn llenwi'r neuadd anferth, "beth y'ch chi'n feddwl o Rhys?" Dechreuodd y bobl weiddi ei enw yn ddi-baid ac yna, neidiasant i fyny mor uchel â thŷ nes dod yn ôl i'r llawr a gadael y neuadd.

'Roedd bywyd yn eithriadol o foethus i Rhys ar y Gomed, a'i hoff beth oedd mynd i weld arwynebedd y gomed, lle niwlog, unig a thyrrau anferth o ia yno, dwbl maint Everest, meddyliodd Rhys! Yn ôl Sandor, pan dorrai un o'r tyrrau i ffrwrdd, (gan nerth cyflymdra y gomed), byddai'n troi'n goch, a dyna be a achosai y gynffon byddai pawb yn ei weld. Yr oeddent wedi bod ym Meriwri, ac oddi amgylch yr haul, ac yr oeddent ar eu ffordd i Mars yn awr.

"Rhys," meddai Sandor un diwrnod, "wyt ti am ddod i Mars?"

"Ydw," atebodd Rhys yn gynhyrfus.

Ar ôl bod yn y llong a gariodd Sandor a Rhys i'r blaned, aethant i mewn i gar ag olwynion anferth. Buont yn hwnnw am ryw ddeng munud nes dod i dŵr uchel. Aethant i fewn i lifft mawr, (sylwedolodd Rhys fod popeth yn fawr ar y blaned hon!) a daethant allan mewn neuadd fawr. Clywodd Rhys lais yn gweiddi, "A! Sandor, ti unwaith eto," roedd fel pe'n dod o unlle.

"Saith mil kroner am 8 mil nwmb," (nwmb oedd arian y Bydysawd).

"O! na, 'roedd y bargeinio wedi dechrau!" meddai Rhys wrtho'i hun.

"Paid a siarad yn wirion," ebe Sandor, "saith mil a hanner nwmb."

"Sandor," meddai'r llais unwaith eto, "'rwy'ti'n un da. 'Rwy'n cytuno. Gadewch inni wleda."

Yr oedd hi'n wleda hyfryd o

ffrwythau piws a'r ddiod tew du yr oedd Rhys yn ei hoffi'n fawr iawn. Yna, yn ôl yr aethant, i'r bygi, ac yna i'r llong ofod yn ôl i'r Gomed Haley, wedi gwneud elw mawr o brynu 8 mil kroner.

Aeth pethau ymlaen fel hyn am hanner blwyddyn arall, nes iddynt gyrraedd Pliwto, eu harhosiad olaf cyn mynd yn ôl i'r ddaear. 'Roedd 76 wythnos i flwyddyn Haley, a bob wythnos byddai honno yn llawn i'r ymylon bob tro. Eisiau gwybod oedd Samsan, os oedd Rhys yn mwynhau ei hun, ond yr wythnos yna, fe ofynnodd Samsan gwestiwn arall,

"Rhys, a oes gennyt deulu?"

Hoeliwyd Rhys i'r llawr ac ysgwydodd ei ben i fyny ac i lawr. Daeth atgofion melys di-rif yn ôl am ei ffrindiau, ei fam, Siân ei chwaer, ei dad a Sioni a Bwli y cathod direidus. "Faint o'r flwyddyn sydd ar ôl, Samsan?"

Atebodd Samsan, "10 wythnos."

"Pasiwch Pliwto, Samsan. 'Dwi am fynd adref." Yna trodd Rhys ar ei sawdl a rheddodd o'r neuadd ac yn syth i'w ystafell. Yna, dechreuodd grio, a chriodd nes fod ei galon wedi hollti'n ddwy, nes fod ei ruddiau yn hallt fel dŵr y môr, ac wrth feddwl am y môr, dechreuodd grio eto.

Nid oedd Rhys wedi siarad â neb am bythefnos. Prin yr oedd wedi bwyta, nes i un Samsan ddod i'w weld un diwrnod.

"Rhys," meddai, "fyddi di oddi yma ymhen tair wythnos. Mi fyddwn ni yn Mars efo'r Martiaid, ac mi fydd Sandor a thithau yn mynd am y ddaear."

Edrychodd Rhys arno drwy ei lygaid coch. "Diolch," meddai. "Diolch yn fawr iawn." Cusanodd Samsan ef ar ei glust, ac aeth o'r ystafell.

Rhodddwyd dillad gwreiddiol Rhys yn ôl iddo, siwmpwr gynnes a phâr o jeans.

Yna, rhodddwyd ef ar y llong ofod 54-56 hefo Sandor. Pwysodd Sandor fotwm coch a safodd Rhys yn y drws yn codi llaw ar bawb a ddaeth i'w ffarwelio.

"Gâi ddiolch eto, Sandor? Diolch," ebe Rhys.

"O! ia, pam nad ydych chi ddim yn prynu gan y Ddaear?" Ac yna atebodd Sandor ef, "Rhys, maen nhw'n bobl wirion. Aros hefo mi."

Ond 'roedd Rhys wedi gwneud ei feddwl i fyny. Rheddodd Rhys i lawr y grisau serth, 73 wythnos yn ôl. Yr oedd yn eu dringo, ond nid oedd coedwig yma, dim ond brynau moel. Rheddodd Rhys yn wyllt i gyfeiriad ei bentref, ond nid oedd ond tawelwch yno, awel fechan, llwch ac adfeilion. Disgynnodd Rhys i'r llawr, 'roedd popeth yn disgyn i'w lle, 'roedd un wythnos ar y gomed Haley yn un flwyddyn ddaearol. 'Roedd wedi bod am 73 wythnos ar y gomed, 73 blwyddyn ddaearol. 'Roedd pob proffwyd yn gywir. 'Roedd rhyfel niwcliar wedi bod. 'Roedd hi 'nawr y flwyddyn 2057. Edrychodd Rhys ar y golau gwyrdd, "Ta-ta, Sandor."

CEUNANT

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Peter a Gwen Baxter, Pant Hyfryd ar enedigaeth eu merch ar Chwefror 17. Chwaer fach i Cynrig.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

DAMWAIN BETHEL

ADRODDIAD ar y gwrthdrawiad rhwng y trên chwarel a lori ym Methel, Ionawr 1926. Gyda diolch i Mrs Eirlys Sharpe, Ael y Bryn, Bethel am y nodiadau.

Ar y trydydd dydd Gwener o'r flwyddyn newydd, 1926, bu damwain ddifrifol yn Saron, Bethel. Lladdwyd dau ddyn o Gaernarfon a oedd yng ngofal lori yr 'Anglo-American Oil Company'. Cynhaliwyd y cwest yn ystafell y YMCA, Bethel.

Roedd Mr Isaac Williams, Tyddyn Andrew Isaf, Bethel yn dyst o'r ddamwain. Digwyddodd am tua hanner awr wedi unarddeg y bore. Roedd y modur yn gyrru'n araf i fyny'r allt o Saron. Roedd y trên, hithau'n teithio ar ei chyflymder arferol ac yn chwibiannu wrth nesau at y lôn. Clywodd Mr Williams y gwrthdrawiad a gwelodd y fflam wrth i'r olew danio.

Mr William Evans, Felinheli oedd gyrrwr y trên, a Mr Thomas Evans, Felinheli yn daniwr. Cafwyd tystiolaeth gan y ddau ohonynt, ac hefyd gan y giard, Mr O.J. Roberts, Felinheli. Yn ôl eu tystiolaeth, roedd y lori o'leu wedi stopio ar yr allt, ond iddi ail-gychwyn wedyn fel yr oedd y trên bron â chynrraedd. Rhoddwyd y brecs ymlaen ar unwaith, ond roedd yn rhy hwyr, a

thrawyd y lori yn ei chanol a'i chario am tua 27 o lathenni cyn i'r trên stopio. Lladdwyd y ddau ddyn oedd yn y lori ar unwaith.

Yn dilyn y dyfarniad o "Ddamwain", awgrymodd y rheithwyr y dylid gosod gatiau ar draws y lôn yma, ac i'r rheini gael eu cau bob tro y byddai'n amser i'r trên chwarel basio. Awgrymiadau eraill oedd y dylai'r brecs ar fan y giard gael eu gwella; ac y dylai'r Cyngor Sir osod rhybuddion ar y ffordd i hysbysu'r cyhoedd o'r peryglon.

Y ddau ŵr o Gaernarfon a laddwyd oedd Mr Thomas Williams, New Street; a Mr William David George Williams, Victoria Street. Yr oedd yr olaf yn ŵr i'r canwr penillan adanbyddus Ap Eos, Môn.

DINORWIG

GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

DYMUNIADAU GORAU i Mr Renell Williams, Tan y Fron ar ôl ei lawdriniaeth mewn ysbyty yn Llandudno. Da gennym ddeall ei fod yn gwella'n foddhaol.

PEN-BLWYDD HAPUS i Mrs Maggie Evans, Dublin House oedd yn 88 mlwydd oed ar Chwefror 10. Pob hwyl i'r dyfodol.

EIN COFION at bob un o'r ardalwyr sy'n cwyno yn eu cartrefi ar y tywydd gerwin yma.

DIOLCH: Dymuna Robert Jones, 7 Maes Eilian ddiolch o galon i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am yr arian, rhoddion a chardiau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref wedi ei lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch yn fawr hefyd am yr arian, anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ar Ionawr 16. Diolch yn fawr i bawb.

TE CHWIORYDD: 13 Chwefror cynhaliwyd Te Chwiorydd Eglwys Dinorwig MC yn y Ganolfan. Rhoddwyd y te gan Mrs Katie L. Hughes, 2 Maes Eilian.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL: Cynhaliwyd yr uchod yn y Ganolfan nos Iau, Chwefror 13. Cafwyd sgwrs ddiddorol gan y

Cyn-Arolygydd Heddlu Mr David John Jones, Caernarfon. Cyflwynwyd y siaradwr gan lywydd y noson, Mrs Megan Morris, Minffordd, Dinorwig. Ymdriniodd y siaradwr â hanes ei yrfa yn yr Heddlu.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

Estynnwn groeso cynnes i'r ardal i newydd-ddyfodiaid. Yn ddiweddar daeth Mr a Mrs Keith Roberts a'u dwy ferch fach, Beverley Ann a Kelly Louise i fyw i Dan-y-coed. Croeso cynnes iddynt i'n plith. Y mae'r plant eisoes wedi eu croesawu i'r Ysgol Sul, a nos Sul Chwefror 16 croesawodd y Parch John Morris, gweinidog Capel Tan-y-coed MC Mrs Roberts i'r eglwys - Mrs Roberts wedi rhoi gwasanaeth yn barod fel cyfeilydd.

Croeso adre a'n dymuniadau gorau i Mr William Pritchard, Garnedd oedd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd. Da ei weld wedi gwella digon da i droedio ei hoff lwybrau unwaith eto. Parhaed i wella.

Ein dymuniadau gorau i Mr a Mrs Dafydd Hughes, 1 Tai Trefor ar eu hymadawiad i Frynrefail. Bu Mr a Mrs Hughes yn gofalu am Gapel Tan-y-coed MC ers dros deng mlynedd. Bydd chwithdod mawr ar eu holau ymysg yr aelodau a'u cyfeillion. Diolch iddynt am eu gwasanaeth, a phob bendith iddynt i'r dyfodol.

Dymuna Miss Nance Williams a Mr Michael Williams, Cartref ddiolch yn gynnes iawn i'w teulu, cyfeillion a chymdogion am yr holl garedigrwydd a'r consyrn ddangoswyd tuag atynt yn eu gwaeledd, ac yng nghanol eu pryderon. Da deall fod y ddau yn gwella yn foddhaol.

HEN LUNIAU - OS GWELWCH YN DDA

Buasai Tony a Val Skilki, perchnogion Gwesty'r Padarn Lake, Llanberis wrth eu bodd clywed gennych os ydych yn berchen hen luniau o Lanberis a'r cylch, ac yn fodlon rhoi eu benthyg am gyfnod. Bwriad Tony a Val yw gwneud arddangosfa o'r lluniau yn eu gwesty. Cysylltwch â nhw yn y Padarn Lake (Llanberis 870260) am ragor o fanylion.

GWRAIG TŶ YN YR ARDD

Un o wyrthiau bywyd ydyw gweld pethau'n torri trwodd sut aeaf bynnag ydym wedi'i gael. Fûm i ddim â'm trwyn yn yr ardd ers sbel cyn y Nadolig oherwydd amgylchiadau a hefyd y tywydd oer. Y peth diwethaf a wneuthum oedd glanhau'r celfi a'u cadw dros y gaeaf. Bûm am dro bach i weld sut mae pethau'n dod ymlaen, ond rwyf wedi cael un siom fawr. Rwy'n hoff iawn o Eirlysiau, neu Flodyn yr Eira fel y geilw Richard Morgan hwy yn ei 'Lyfr Blodau' a gyhoeddwyd ddechrau'r ganrif.

'Plentyn cynia'r gwanwyn yw, Yn yr awel oer mae'n byw'.

Prynais fylbiau yn yr hydref a'u plannu mewn lle cysgodol ond un eirlys fach sydd wedi blodeuo. Rai blynyddoedd yn ôl cefais glwstwr gan ffrind ond diflannodd rheiny hefyd. Rhaid imi sgrifennu at Clay Jones a'i banel garddio i ofyn beth sydd o'i le. Fodd bynnag, efallai y bydd gwell lwc y flwyddyn nesaf os cânt lonydd.

Ni fedrais orffen y gwaith y dylaswn fod wedi'i wneud ym mis Tachwedd, fel torri coesau blodau wedi marw, ond efallai y byddant wedi bod yn dipyn o gysgod i'r planhigion.

Yr unig frawddeg Saesneg a glywais gan fy nhad oedd 'March meni weddars', a chan fy mod i ac yntau yn uniaith Gymraeg y pryd hynny, mae'r frawddeg wedi aros yn fy nghof. Mae'n ddigon gwir. Mae tywydd Mawrth yn amrywio a rhaid manteisio ar bob diwrnod braf i wneud tipyn yn yr ardd, a gadael y

peintio a'r papuro i'r dyddiau glawog.

Rwyf eisiau tair coeden 'floribunda' ac mae'n hen bryd eu rhoi i lawr, a thocio beth sydd yma'n barod.

Bydd llawer yn rhannu eu blodau parhaol yn yr hydref ond y mae yna lawer i'w ddweud dros eu gadael hyd y gwanwyn. Collais rai planhigion y llynedd wrth eu rhannu ym mis Tachwedd a daeth y rhew a'u difetha cyn iddynt gael amser i ymsefydlu.

Edrychaf ymlaen at weld y cennin Pedr yn dawnsio yn yr awel. Rhoddais rai mewn potiau yn y tŷ gwydr ac fe ddylai fod gennyf flodau erbyn Dydd Gŵyl Ddewi.

Wn i ddim a ydw i'n mynd yn ddiog ai peidio ond nid wyf am hau blodau blynyddol ond bod yn fodlon ar edrych ar ôl y blodau parhaol, llacio'r pridd o'u cwmpas, ac maen nhw'n ymateb i'r driniaeth yn fuan iawn. Edrychais a ydyw'r Delphiniums yn iawn. Mae'r hen falwod yn hoff iawn ohonynt. Rhoddais damaid i ffrind ddwy waith ond does dim golwg ohonynt. Rhaid rhoi rhai yn y gwanwyn i weld a fydd gwell lwc.

Mae'r catalogau lliwgar yn temtio un yn arw ac mae arnaf flys dipyn o 'dahlia', ond ddim y rhai tal, ond mae'n llawer rhy fuan i'w rhoi allan. Byddai ychydig o flodau Mihangel (Chrysanthemum), y pom poms bach, yn lliwgar hefyd.

Onid beth am rywbeth i'w fwyta, meddech chi. Y gŵr fydd yn gofalu am y rheiny. Dywedir fod eira'n wrtaith dyn tlawd. Fe ddylai fod llewyrch ar yr ardd lysiau ar ôl y gaeaf hwn.

Gobeithio y cawn ambell i ddiwrnod braf i wneud yr holl bethau sy'n disgwyl amdanaf.

O BANTRI BETH



Os oes dant melys gennych, yna

dyma'r pwddin i chwi!

OREN MELYS

dau oren

*I owns o siwgr castor
hanner owns o hufen dwbl, ffres
manion siocled i addurno*

Gratiwch groen un oren i ddysgl a gwasgwh i mewn sudd y ddau oren. Ychwanegwch y siwgr a'i droi nes bydd wedi toddi. Yna, tywalltwch yr hufen iddo a'i guro. Rhowch y gymysgedd mewn dysglau unigol a'u haddurno â manion siocled. Mae digon yma i chwech - neu lai o rai barus!

AM FFENESTRI DRYSAU GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793

B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON

LLANRUG
(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.

DIOLCH: Dymuna Mrs Jones, 7 Hafan Elan ddiolch i'r teulu a phawb am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei gwaeledd. Diolch yn arbennig i Mrs Dilys Jones, warden Hafan Elan am ei gofal diflino.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Miss Buddug Williams, Glan Padarn a Mr Alwyn Williams, Llys Llywelyn, Ffordd yr Orsaf yn eu profedigaeth o golli eu brawd yn ddiweddar.

DAMWAIN: Cyfarfu Mrs M. Jones, 1 Bryn Fedwen â damwain yn ei chartref yn ddiweddar. Dymunwn wellhad buan iddi.

CYMDEITHAS SANT IOAN: Cynhaliwyd Noson Goffi lwyddiannus er budd y Gymdeithas yn yr ysgol gynradd nos Fercher, Ionawr 29. Enillwyd y Raffl gan David Roberts, 12 Stad Nant y Glyn, a Mrs Iola Jones, Treflys. Y mae'r pwyllgor yn diolch i bawb am eu cyfraniad ar gyfer y raffl a'r stondinau.

GWELLHAD BUAN: i Mrs R. Williams, 18 Hafan Elan, gynt o Lys Orwig, a fu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

CYMDEITHAS LENYDDOL: Cyfarfu Cymdeithas Lenyddol Capel Mawr nos lau, Ionawr 30. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch W.O. Roberts. Y siaradwr gwadd oedd Mrs Nansi Lovatt a roddodd sgwrs ddifur ar ganu gwerin. Diolchodd Miss Malan Roberts i Mrs Lovatt. Rhoddwyd y te gan Mrs Alf Parry, Mrs Mair Jones a Mr John Wyn Owen.

Cyfarfu'r Gymdeithas hefyd nos lau, Chwefror 13. Llywyddwyd y cyfarfod gan y Parch John Morris. Mr Eifion Roberts, Stad Nant y Glyn oedd y siaradwr gwadd. Rhoddodd sgwrs ddifur ar Ifan Gruffydd, Y Gŵr o Baradwys. Diolchwyd i Mr Roberts gan y Parch W.O. Roberts. Rhoddwyd y te gan Mrs Beryl Thomas, Mrs Mair Jones a Mrs Alf Parry.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlir â Mrs E. Howell, Bryn Elert ar farwolaeth ei brawd yn Waunfawr. Dymunir gwellhad buan iddi hefyd gan ei bod ar hyn o bryd yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon.

GWELLHAD BUAN hefyd i Mrs M. Williams, Delfryn, sydd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

CLWB BLODAU'R GRUG: Nos lau, Ionawr 23 cynhaliodd Clwb Blodau'r Grug eu cinio blynyddol yng Ngwesty'r Foelas. Cydymdeimlodd yr ysgrifennydd â Miss Buddug Williams, Glan Padarn, ar farwolaeth ei brawd yng Nghaernarfon, a hefyd â Mrs E. Howell, Bryn Elert, ar

farwolaeth ei brawd yn y Waunfawr. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Howell hefyd gan ei bod yn Ysbyty'r Bwth yn ogystal ag aelodau eraill a oedd yn sâl yn eu cartrefi. Cafwyd Noson Lawen i ddilyn yng nghwmni Cwmni Drama Llanberis. Hwy hefyd a drefnodd y raffl a enillwyd gan Mrs Dora Jones, Stad Hafan Elan a Mrs A. Jones, Eilionwy. Talwyd y diolchiadau gan Mr Ifan Williams, Stad Hafan Elan. Bydd y cyfarfod nesaf brynhawn lau, Mawrth 13.

CLWB Y MAMAU: Treuliodd Clwb y Mamau noson ddiddorol yn yr Ysgol Gynradd nos lau, Ionawr 23 yng nghwmni Mr Edwards, Swyddog Diogelwch y Ffydd. Rhoddodd anerchiad difur a dangosodd ffilm hefyd. Cyflwynodd Mr Edwards jig-so at wasanaeth yr Ysgol Feithrin. Rhoddwyd y te gan Doreen, Anwen a Gwyneth. Enillwyd y raffl gan Carolyn.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Nos lau, Chwefror 6 cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd yng Nghapel Mawr. Llywyddwyd y cyfarfod ac arweiniwyd mewn defosiwn gan Mrs Gillian Morris. Gwnaed trefniadau ar gyfer Cyfarfod Gweddi Chwiorydd y Byd a gynhelir ar Fawrth 7 am 2 o'r gloch yng Nghapel Hermon. Rhoddwyd y te gan Mrs Nansi Roberts a Mrs Beryl Thomas.

DAMWAIN: Dymunir gwellhad buan i Miss Linda Jones, Hafod, Caerhun gynt, o Lanrug sydd wedi cael damwain yn ddiweddar.

GWELLHAD: Dymunir gwellhad buan i Mr Henry Roberts, 2 Plastirion Terrace, sydd yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd i Mrs N. Williams, Moelwyn, Stad Hafan Elan, Mrs Roberts, Ceulan, Mr Gwyn Martin Williams, Grugwen sydd wedi dychwelyd adref ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

DYCHWELYD ADREF: Mae'n dda gennym glywed fod Mrs M. Evans, Lloc wedi dychwelyd adref ar ôl bod yn aros hefo'i chwaer a'i bod yn dal i wella.

PLAID CYMRU: Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni John Ogwen yng nghyfarfod diwethaf y gangen. Llywydd y noson oedd Gwyndaf Jones a fu'n gyfeillgar â John Ogwen ers dyddiau plentyndod. Croesawodd ef yr aelodau a'r cyfeillion i'r cyfarfod. Paratowyd y te gan Margaret Jones, Dwyros, Eryl Roberts a Margaret Parry. Enillwyd y raffl gan Phyllis Ellis.

Darlith gan Robin Williams a geir yng nghyfarfod nesaf y gangen a gynhelir nos Fercher, Mawrth 12 am 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd. Mae croeso i gyfeillion ddod i'r cyfarfod hwn. Ar hyn o bryd mae'r pwyllgor yn paratoi ar gyfer Ffair Wanwyn a gynhelir ar Ebrill 9 yn yr Ysgol Gynradd.

ACTORES LEOL: Ers mis Rhagfyr bu Mari Rowland Hughes, Pant Afon yn perfformio gyda Chwmni Theatr Clwyd yn nrama Dylan Thomas, 'A Child's Christmas in Wales'. Roedd y cwmni yn perfformio yn Theatr Gwynedd fis Chwefror, felly cawsom gyfle i weld Mari ar y llwyfan yn hytrach nag ar y teledu. Cofiw'n ei gweld yn y gyfres 'Coleg' a bydd yn ymddangos mewn drama ar y BBC cyn bo hir. Yn ddiweddar hefyd bu Mari yn chwarae rhan flaenllaw yn y ddrama 'Wuthering Heights' gyda chwmni lleol Harrogate. Dymunwn yn dda iddi yn y dyfodol.

LLWYDDIANT: Yn ddiweddar enillodd Ruth Martin, Fair Haven, radd PhD mewn Hanes ac o fewn pythefnos fe enillodd ei brawd, John Martin, hefyd radd PhD mewn Meddygaeth. Llongyfarchiadau cynnes iawn i'r ddau. Mae'r Dr John Martin a'i briod Sara newydd fynd i Seattle, talaith Washington, UDA. Bydd John yn gweithio am flwyddyn yn gwneud gwaith ymchwil yr arennau ym Mhrifysgol Seattle. Dymunwn yn dda iawn iddynt yno.

SEINDORF: Nos Sul, 9 Chwefror cymerodd y Seindorf ran mewn rhaglen a recordiwyd ar gyfer rownd gyntaf cystadleuaeth Band y Flwyddyn ar 'Radio Wales'. Gellir clywed y rhaglen ar Fawrth 30. Ynghyd â Seindorf Llanrug gellir clywed Seindorf BTM o'r De hefyd.

Yn Ysgol Eithnog, Bangor ddwydd Sadwrn, Chwefror 15 cynhaliwyd Cystadleuaeth Unawdau a Phedwarawdau Gogledd Cymru. Daeth rhan dda o'r gwobrau i Lanrug: 1af Rhian Hughes am Felodi Araf Hŷn; 1af Jim a Dyfed Jones am Ddeuawd Hŷn; Melodi Araf oedran 12-16, 4ydd i Gareth Jones a 5ed i Suzie Jacobs allan o 47.

Bydd mis Mawrth yn fis prysur iawn i'r Seindorf gan fod ganddynt ddwy gystadleuaeth, un yn Blackpool ar Fawrth 2 a'r llall yn Southport ar Fawrth 29. Bydd y cystadlaethau yn anos eleni ar ôl i'r Seindorf gael ei dyrchafu i'r drydedd adran ers dechrau'r flwyddyn. Dymunwn bob llwyddiant iddynt.



YN YR YSBYTY: Y mae Cefin Lewis, Bron Helyg yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y caiff wellhad buan.

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror o'r gangen yn Festri Capel Mawr dan lywyddiaeth Mrs Bethanne Williams. Cafwyd sgwrs ddifur a chartrefol gan y Parchedig Harri Parri, Caernarfon.

Sôn yr oedd am frogarwch ac yna am ei fro enedigol yn Llangian, Llŷn. Credai fod ei eni yno, lle bu'r Piwritaniaid yn ymgynnull am y tro cyntaf, wedi rhoi iddo ef y natur anghydfurfiol sydd ynddo. Cyfaddefodd nad âi ef byth yn ôl i'w hen fro gan mai tyfu ac ymledu y dylai gwreiddiau wneud. Diwedddodd y sgwrs gyda geiriau ei hoff fardd, R. Williams Parry: 'Digymar yw fy mro trwy'r cread crwn, Ac ni bu dwthwn fel y dwthwn hwn.' Gwnaed casgliad ar y diwedd tuag at Uned Macmillan yn Ysbyty Bryn Seiont. Diolchwyd i Mr Parri gan Mrs Nancy Lovatt. Paratowyd y te gan Mrs Eryl Roberts, Mrs Valmai Bernard, Mrs Buddug Jones a Mrs Katie Williams a diolchwyd iddynt gan Mrs Owena Elias.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr Ysgol Gynradd ar Fawrth 11 gyda Sioe Ffasiynau Antur Aelhaearn.

DIOLCH: Dymuna Mrs Ellen Williams, Moelwyn ddiolch am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd tra bu yn yr ysbyty. Diolch hefyd i'r teulu a'r cymdogion am eu caredigrwydd. Y mae Mrs Williams ar hyn o bryd yn aros gyda'i merch, Beryl, ym Mangor.

PEN-BLWYDD HAPUS: iawn i Mrs Ellen Jane Hughes, 24 Hafan Elan a oedd yn 80 oed ar Chwefror 25.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Raymond a Grace Williams, 2 Afon Rhos ar enedigaeth mab, Eifion, brawd i Nia. Llongyfarchiadau hefyd i Derek a Delyth Pritchard, 1 Afon Rhos ar enedigaeth eu mab, Robert Arwel, brawd bach i Siôn a Lowri.

YN YR YSBYTY: Y mae nifer o drigolion yr ardal ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd - Mrs Beti Evans, 9 Afon Rhos; Mrs Eleanor Jones, Bodlondeb; Mr J. Horman, Venice ac Emyr Roberts, Elan Wen. Anfonwn ein dymuniadau am wellhad buan i bob un ohonynt.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Nos Fawrth, Chwefror 4 gyda Miss Megan Humphreys yn llywyddu, cafwyd sgwrs hynod ddiddorol gan Mr John Owen Hughes, Waunfawr, oedd yn sôn am hen arferion, chwedlau a straeon. Talwyd diolch i'r siaradwr gan y Parch Eryl Blainey.

Ar y 18fed treuliodd noson ddifur yng nghwmni Mr Rol Williams, Waunfawr. Pigion o'r papurau lleol ar droad y ganrif oedd ei destun, yn cynnwys hysbysebion a hanesion lleol. Llywydd y cyfarfod oedd Mr Ifor Williams, a thalwyd diolch i Mr Williams gan Mrs Mary Lloyd Williams.

Mawrth 4 - Dathlu Gŵyl Ddewi yn y Foelas.

MARW YMHELL: Bnawn Sadwrn, Chwefror 22, daeth y newydd trist am farw un o gyn-drigolion yr ardal, William R. Williams, gynt o Fryn Marion, Tai Newyddion, Llanrug, yn Utica, Efrog Newydd, U.D.A. ac yntau yn 83 oed. Gall rhai o hen drigolion yr ardal ei gofio fel 'Wil Llongwr' a hwyliai o Lerpwl ar fordeithiau i Dde Affrica yn ugeiniau cynnar y ganrif ac a ddug anifeiliaid ac adar adref o fforestydd y trofannau. Roedd yn ffefryn gyda'r plant am y straeon anhygoel a adroddai am y gwledydd pell.

Estynnir cydymdeimlad â'i frodyr a'i chwiorydd a drig yn yr ardal eto - Miss Mary Williams, Tregarth; Mrs Alice Roberts, Ceulan Llanrug; Mr Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug a Mr John Griffith Williams, Llundain.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Gwahoddir tendiau oddiwrth adeiladwyr lleol i godi cysgodfan bws ger gyffordd Groeslon Marc Llanrug. Rhagor o wybodaeth ynghyd â'r cynlluniau oddiwrth Clarc y Cyngor, G. Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug. Ffôn: C'fon 4669.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MWG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

LLETY?

Os ydych yn barod i gynnig llety i'r plant sydd yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Dyffryn Ogwen yn ystod mis Mai, cysylltwch â Margaret Parry, Bro Dawel am ffurflenni a rhagor o fanylion.

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

MERCHED Y WAWR: Cyfarfu'r gangen yn y Ganolfan ar Ionawr 23 a dymunwyd yn dda i bawb ar ddechrau'r flwyddyn newydd gan y Llywydd Mrs Cadi Jones. Llongyfarchwyd Mrs Margaret Eaglestone ar fod yn nain (ganwyd mab, Rory, i Martin a Jenny). Cydymdeimlwyd â Mrs Mary A. Owen sydd wedi cael damwain ac wedi bod yn yr ysbyty, a dymunwyd adferiad buan iddi. Cyfeiriwyd hefyd at amryw o aelodau sydd wedi bod yn cwyno. Tynnwyd sylw'r aelodau at yr anawsterau yn Lesotho, gwlad sydd wedi ei chysylltu â Chymru.

Darllenwyd llythyr oddi wrth y Trefnydd Cenedlaethol ynglŷn â chymorth i'r Urdd a chyhoeddodd y Llywydd y bydd cyfle i'r ardal gyfrannu tuag at yr Urdd mewn cyfarfod arbennig sydd i'w gynnal yn y Ganolfan fore Sadwrn, Ebrill 26.

Cyfeiriwyd at gystadleuaeth cynllunio cerdyn Nadolig er budd yr Anabl - ymdrechion i ddod i law cyn diwedd Chwefror; at gystadlaethau llenyddol; a hefyd cystadlaethau chwaraeon - manylion yr holl gystadlaethau i'w cael gan Ysgrifennydd y Gangen.

Rhododd Mrs Mary Vaighan Jones adroddiad llawn o'r Pwyllgor Rhanbarth.

Mr Duncan Brown, Gwelfor, oedd y gŵr gwadd a dangosodd sleidiau lliwgar tra'n rhoi sgwrs ddiffr ar Adar y Gaef. Diolchodd Mrs Mary Vaughan Jones iddo ar ran y gangen.

Mrs Cadi Jones enillodd y raffl a roddwyd gan Mrs Eirlys Griffith.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Chwefror 27 pryd y byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yng nghwmni Dei Tomos.

YR YSGOL FEITHRIN: Nos Lun, 17 Chwefror cafwyd perfformiad o'r Pantomeim 'Cocos Cocos' gan Gwmni Llechen Las, Dyffryn Ogwen. Roedd yn noson ardderchog gyda phawb wedi mwynhau eu hunain. Rhaid crybwyll y perfformiad gan y 'Town Crier', da iawn chdi Heulwen Huws. Darparwyd lluniaeth i'r actorion ar ôl y perfformiad gan bwyllgor yr Ysgol Feithrin a dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cyfraniad tuag at y bwyd; hefyd i bawb am droi allan ar noson mor oer. Diolch o galon.

PLAID CYMRU: Cynhelir noson gymdeithasol ar y cyd a changen Bontnewydd i ddathlu Gŵyl Ddewi yn Llety, Caeathro ar 1 Mawrth am 7.30 o'r gloch.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr: 1 £40 S.G. Tyrrall, Garreg Wen; 2 £25 Harry Thomas, Bryn Teg; 3 £10 G.W. Griffith, Bod Gwilym.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd noson ddiffr yn y Ganolfan nos Lun 10 Chwefror pan oedd nifer o'r aelodau yn adrodd y stori a'r hanesion oedd ynghlwm wrth wahanol eitemau o'u heiddo. Llywydd y noson oedd Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eilian a thalwyd y diolchiadau gan Mr Gwilym Williams, Plas Bodhyfryd. Bydd tymor llwyddiannus iawn yn dod i ben gyda'r swper yng ngwesty'r Dingles, Dinas Dinlle nos Lun, Mawrth 10, gyda Rovi yn ein diddanu. Os oes rhai heb roi eu henwau, dylid hysbysu Mr Stanley Williams, Cefn Coed neu Mr Rol Williams, Ardwyn ar unwaith. Bydd y bws yn cychwyn o'r Llythyr dy am 7 o'r gloch.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod yn Festri Capel Croesywaun nos lau, Chwefror 6. Croesawodd Mrs Pat Parry, y Llywydd, y Parch. a Mrs Ifor Rowlands, Caernarfon, a fu yn byw am rai blynyddoedd yn y Waunfawr cyn ymfudo i Awstralia. Bu Mr a Mrs Rowlands yn Israel yn ddiweddar a dangoswyd sleidiau lliwgar tra yn rhoi sgwrs ddiffr ar eu gwyliau. Diolchodd Mrs Catherine A. Jones iddynt ar ran y Gangen.

Darllenwyd y Llythyr Misol gan y Llywydd a thrafodwyd amryw o weithgareddau sydd i'w cynnal yn y dyfodol. Tynnwyd sylw'r aelodau at gyfarfod o'r Cyngor yng Nghaernarfon ar Chwefror 8 a gofynnwyd i Mrs K. Wynn Jones ein cynrychioli yno.

Mynegwyd anfodlonrwydd ynglŷn â chyflwr rhodfa min y ffordd o Bant-cae-haidd i Groesywaun. Penderfynwyd ysgrifennu eto at y Cyngor Sir yn tynnu sylw at yr angen am balmart.

Enillwyd y raffl (rhodd Mrs K. Wynn Jones) gan Mrs M.B. Davies.

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos lau, Mawrth 6 pryd y disgwyliwn aelodau o gangen Pontrug i ddathlu Gŵyl Ddewi gyda ni. Atgoffir aelodau y bydd bwrdd gwerthu.

DIOLCH: Dymuna Gwenno a Selwyn ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau, ac yn arbennig i'r ddau feddyg, am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu merch Sian Angharad ar Ionawr 15.

Y GANOLFAN: Cynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus iawn yn y Ganolfan i sefydlu ls-bwyllgor i edrych i mewn i'r posibilrwydd o adeiladu ystafelloedd snwcer ac ystafelloedd newid i'r tîm pêl-droed.

Daeth nifer fawr o bobl i'r cyfarfod ac mae'r pwyllgor yn barod wedi dechrau ar ei waith. Dymunir pob llwyddiant iddo.

CLWB GWYRFAI WAUNFAWR: Er gwaethaf y tywydd garw daeth nifer fawr o'r aelodau i'r cyfarfod bnawn lau, Ionawr 23 gan fod Shôn Awstin Jones yn annerch y cyfarfod. Llywyddwyd gan Mrs Morgan Jones, ac wrth gyflwyno'r gŵr gwadd dywedodd ei fod yn un o blant y Waen ac yn ffrind mawr i'r aelodau ac yn gymwynaswr ffyddlon i'r Clwb. Hefyd croesawyd Mr R. Jones, Bryn Peris ar ôl absenoldeb maith oherwydd gwailedd.

Darllenodd Mrs Idris Jones yr ysgrifennydd llythyr oddi wrth y chwiorydd caredig oedd yn cynorthwyo yng nghyfarfod pen-blwydd y clwb. Anfonwyd neges i amryw o'r aelodau oedd yn absennol oherwydd gwailedd.

Sôn am blanhigion er dechrau amser a'u gwerth meddyginiaethol wnaeth Shôn. Mae'n amlwg ei fod wedi gwneud gwaith ymchwil llwyr a chawsom wybod am yr hen dadau yn gwella anhwylderau. Mrs Miles oedd yn diolch yn garedig iawn i Shôn am ei anerchiad diddorol. Rhoddwyd yr anrheg arbennig gan Mrs Pritchard, Tref Eilian a Mr Robin Jones a'i henillodd. Mrs Eccleston a Mrs Brown oedd yn gofalu am y te.

Yn y cyfarfod ar Chwefror 6ed llywyddwyd gan y Parchedig Barry Thomas a llongyfarchodd bawb oedd wedi troi allan ar ddiwrnod mor aeafol. Hefyd cydymdeimlodd â Mrs Bracegirdle ar golli ei brawd yn Nottingham.

Y gŵr gwadd oedd Mr Gwilym Williams, Bod Hyfryd, un sydd wedi bod yn flaenllaw iawn yn y gwaith o adeiladu'r Ganolfan Gymuned lle rydym fel Clwb yn cyfarfod a lle mae holl weithgareddau'r ardal yn cael eu cynnal erbyn hyn. Dangosodd Mr Williams sleidiau ar wahanol gyfnodau o'r adeiladu a thalodd deyrnged uchel i'r tîm gwirfoddol a fu rhyngddynt a chrefftwyr proffesiynol yn eu gwahanol adrannau o'r adeiladu. Dechreuwyd ar y Ganolfan yn 1982 ac agorwyd yn swyddogol Medi 1984. Gwnaed hyn ar y grantiau oedd ar gael yn ogystal â haelioni unigolion a chefnogaeth gwahanol sefydliadau'r ardal.

Mae'r Clwb 300 yn hanfodol i redeg y Ganolfan ac mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i rai sy'n cyfrannu'n gyson. Diolchwyd yn gynnes i Mr Williams a gwnaed apêl ar i ragor ymaelodi â'r Clwb Tri Chant gan fod rhagor o welliannau yn y fantol.

Enillwyd y raffl (rhodd Mrs Morgan Jones) gan Mrs Pritchard, 4 Tref Eilian.

CLWB Y MAMAU: Nos Wener, Mawrth 7 am 6.30 o'r gloch yn y Ganolfan, cynhelir 'Jumble Sale', paned a sgwrs. Dowch yn llu! Yr elw tuag at y Ganolfan.

LLONGYFARCHIADAU: i Marilyn Roberts, Bod Afon, ar ei phriodas â Dafydd Tomos o Lanystumdwy.

i Mrs Tegwen Jones, Rhos Alun, ar fod yn nain unwaith eto. Ganwyd mab i Gwyneth Silyn a'i gŵr Sion.

YN YR YSBYTY: Mae Mr William Llywelyn Jones, Llannerch, Rhos Cefn Du yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion ato a dymunwn wellhad buan iawn iddo.

ADREF O'R YSBYTY: Da oedd clywed bod Mrs Vera Jones, Tref Eilian wedi dychwelyd o'r ysbyty. Gobeithiwn ei bod yn dal i wella a bod hithau a Mr Jones yn hapus yn eu cartref newydd.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma enillwyr y Clwb am fis Ionawr: 1 Mrs Mwynwen Jones, 2 Tref Eilian; 2 Dr. Miles, Trefeddyg; 3 Rob Jones, Tan y Fron.

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

ADREF O'R YSBYTY: Da yw deall fod Martin Parry, Glandŵr wedi gwella ar ôl triniaeth yn yr ysbyty; hefyd Miss Warder, 1 Maes Gerddi hithau wedi dychwelyd adref ac yn gwella ar ôl damwain yn ei chartref.

YN YR YSBYTY: Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad buan i Mrs Lizzie Phillips, 3 Groeslon a Mr John C. Jones, 21 Dôl Afon, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

CLWB MAMAU A MERCHED IFANC: Nos Fercher, Chwefror 6 yn y Ganolfan Gymdeithasol cyfarfu'r aelodau a chafwyd sgwrs ar 'Gyffuriau', sydd yn broblem fawr ymysg pobl ifanc heddiw, gan Mr Dafydd Price, Tan-y-Graig, gyda thrafodaeth i ddilyn. Rhoddwyd y te gan Mrs Margaret Williams a Mrs Ann Jones.

CLWB POBOL Y CWM: Mae'r rhan fwyaf ohonom wedi cael y pleser o gerdded i gopa'r Wyddfa yn ystod ein dyddiau cynnar a mwynhau'r golygfeydd godidog wrth ddilyn cledrau'r rheilffordd a adeiladwyd yn ystod y ganrif ddiwethaf ac sydd erbyn heddiw'n denu miloedd o ymwelwyr bob tymor haf i ardal Llanberis. Campwaith peirianyddol, nid heb rwystrau, oedd y fenter a dyna oedd sgwrs ddiddorol Mr Rol Williams, y Waunfawr i aelodau'r Clwb bnawn lau, Ionawr 23. Diolchwyd iddo gan y Llywydd a rhoddwyd y te gan Miss E. Hughes a Mrs E. Hughes.

Y gŵr gwadd bnawn lau, Chwefror 6 oedd Mr Dafydd Price, Tan-y-Graig, ac yn garedig iawn dangosodd fidio o'r Cinio Nadolig a rhaglen o adloniant oedd yn dilyn a roddwyd trwy garedigrwydd gwragedd a merched ieuanc yr ardal i'r oedolion. Diolchodd Mr Llew Hughes i Mr Price am drefnu cyfarfod mor ddiddorol. Yn ystod egwyl mwynhawyd te ysgafn wedi ei ddarparu gan Mrs J. Parry, Miss M. Davies a Mrs M. Williams.

CYNGOR CYMDEITHAS WAUNFAWR

Gwahoddir prisiau am y gwaith o edrych ar ôl mynwent y plwyf ym Metws Garmon. Nid yw hyn yn cynnwys torri beddau. Prisiau i law y Clerc i'r cyfeiriad isod, lle y ceir rhagor o fanylion, erbyn dydd Llun 10 Mawrth, 1986.

**I Gwynedd Williams (Clerc)
2 Bro Waun
Waunfawr, Gwynedd**

CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

**CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR 291
Hefyd ail-osod carpedi**

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

MAE'R

SAMARIAID

**YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD**



**BANGOR
354646**

THEATR CRWBAN YN LLANBERIS

Ers Chwefror 8 mae Cwmni Theatr Crwbau yn trafieilio Cymru yn cyflwyno drama diweddaraf R. Gerallt Jones a gynhyrchir gan yr actor Dafydd Hywel. Mae'r Cwmni, o dan weinyddiad Ellen ap Gwynn (sydd â chysylltiad agos ag ardal yr Eco), yn adnabyddus drwy Gymru am eu gwaith amrywiol a phoblogaidd. Y tro hwn mae John Glyn Owen a Mari Owen, aelodau parhaol y cwmni yn cael cefnogaeth Dewi 'Pws' Morris, Siw Hughes, Alun Elidir a Rhian Cadwaladr sydd o Lanberis. Does dim angen cyflwyno Dewi Morris i ddilynwyr 'Torri Gwynt' a 'Pobl y Cwm' ond ddim yn aml y cawn y cyfle o'i weld ar lwyfan.

Gwelir Siw Hughes yn y rhaglenni 'Ffalabalam' a 'Heno, Heno' a bu Alun Elidir yn aelod o'r Cwmni yn ysbeidiol ers 1980, y tro diwethaf yn chwarae rhan y gŵr methodig yn 'Bwrw'r Sul'. Newydd orffen gweithio ar gynllun arbrogol theatr mewn addysg mewn chwech o ysgolion Dyfed mae John Glyn a Mari Owen. Bu Rhian Cadwaladr o Lanberis yn chwarae rhan Meisi yn 'Bwrw'r Sul' ac yn y cyfamser bu'n aelod o gwmni Brith Gof ac yn rhan o prosiect dathlu 400 mlwyddiant y Beibl yn Llanrhaeadr ym Mochnant yn ogystal â chwarae amryfal rannau mewn dramâu radio a theledu.

Does dim rhyfedd fod y

cyflwyniad yn profi mor boblogaidd, gyda nifer fawr o bob rhan o Gymru wedi teithio milltiroedd i'w mwynhau eisoes.

A wnaethoch chi fwynhau 'Joni Jones' ar y teledu?

Dyma eich cyfle i weld drama diweddaraf yr awdur!

Cawn ganddo gynhyrchu cyfoes sy'n dilyn hynt a helynt cwmni o actorion proffesiynol yn un o ddinasoedd y Gorllewin. Ymunu â nhw yn ymarfer y ddrama Fictoriaidd adnabyddus 'Y Briodas' dan gyfarwyddyd cynhyrchydd enwog sy'n gweithio gyda nhw ar wahoddiad. Dilynwyr hynt y cymeriadau rhwng yr ystafell ymarfer a'r tŷ y maent wedi'i rentu ar y cyd. Yn ystod y chwarae cawn sylwadaeth graff ar gysylltiadau personol a gwelir mor anodd yw i bobl addasu i sefyllfaoedd annisgwyl yn eu bywyd.

Dyma gyfle ardderchog felly i drigolion dalgylch Yr Eco weld cwmni proffesiynol cenedlaethol yn perfformio am y tro cyntaf yn Llanberis am bris llawer yn rhatach na'r arferol ac yn eich Canolfan leol newydd. Gobeithio y bydd hyn yn gychwyn i lawer mwy o'r math yma o adloniant yn y ganolfan - mae'n addas iawn i'r pwrpas. Mae'r tocynnau yn cael eu cyfyngu i 250, felly peidiwch ag oedi. Ffoniwch Bryn Parry, 76 Stryd Fawr, Llanberis 870455.



Rhai o'r cwmni'n ymarfer ar gyfer y perfformiad o'r "Briodas". Rhian Cadwaladr, yr actores o Lanberis, yw'r ail o'r chwith.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL**
**GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF**
**ATGYWEIRIO TAI
GWAIR**
E. PUGH
**WELDING &
FABRICATING**
**32 GLANFFYNNON
LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 5394

**Aled
Jones**
Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio
**4 Bryn Eglwys
Penisarwaun**
Ffôn: Llanberis
871047

LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau lleol.

Cyfras Byd Heddiw:

Siapwch Hi!

Eirian Mai

Ymlaciwch!

Margaret Howells

Y Lolfa, £2.95 yr un.

Cyfras newydd ar bynciau cyfoes ac ymarferol; y cyntaf ar golli pwysau a'r ail ar ymlacio trwy ymarfer yoga.

Emrys Evans

Dafydd Ap Siencyn a'r Llong Goch

Gwasg Carreg Gwalch, £1.75

Y seithfed gyfrol yng Nghyfras

Dafydd ap Siencyn.

Cyfras y Cewri

R.S. Thomas (Gwenno Hywyn, Gol.)

Gwasg Gwynedd

Neb

Hunangofiant R.S. Thomas, y bardd adnabyddus.

Sioned Puw

Cymer Dy Serch yn Ôl

Cyhoeddiadau Mei, £1.00

Y llyfr diweddaraf yng Nghyfras y Fodrwy.

Marion Eames

Seren Gaeth

Gwasg Gomer, £6.75

Priodas yn ystod pumdegau'r ganrif hon yw cefndir nofel ddiweddaraf Marion Eames.

A. Ernest Evans

Cynnal Oedfa

Y Parch A. Ernest Evans, £1.85

Naw ar hugain o oedfaon, wedi'u cynllunio'n ofalus o ran testun, gweddi ac emynau.

William Hughes Jones

Atgofion Hogyn o Gwm-Main

Llyfrau'r Faner, £2.25

Cyrol o atgofion, sy'n rhoi cipolwg ar fywyd cefn gwlad ardaloedd Uwchaled ac Edeirnion yn ystod hanner cyntaf y ganrif hon.

Alun T. Lewis

Dringo dan Ganu

Gwasg Gee, £2.50

Cyrol o atgofion, storïau a barddoniaeth.

W. Rhys Nicholas

Y Mannau Mwyn a Cherddi Eraill i'r Ifanc

Tŷ John Penry, £2.75

Cyrol o gerddi ac adroddiadau amrywiol i blant a phobl ifanc.

Nest Rees

Marina James

Pupur a Halen

Y Ganolfan Adnoddau, £3.95

Casgliad helaeth o rysetiau, yn bennaf ar gyfer disgyblion sy'n dilyn cyrsiau Gwyddor Cartref ar gyfer arholiadau.

E. Namora Williams

Carneddog a'i Deulu

Gwasg Gee, £3.50

Cyrol sy'n adrodd hanes bywyd a gwaith un o gymeriadau hynotaf a mwyaf dawnus un o ardaloedd Eryri.

W.E. Williams

Oi Flaen y Mast

Gwasg Gee, £2.75

Y drydedd gyfrol o atgofion gan W.E. Williams sy'n canolbwyntio ar ei flynyddoedd cynharaf ar y môr, rhwng 1918 a 1924.

BWYTA WRTH FODD EICH CALON

Y mae Adran Iechyd Cyngor Bwrdeistref Arfon a Churiad Calon Cymru wedi creu cynllun arloesol ar y cyd i annog perchnogion bwytai yn yr ardal i baratoi bwydydd iach.

Y cynllun hwn, sy'n dwyn y teitl 'Gwobrau Curiad Calon Cymru' yw'r un cyntaf o'i fath yng ngwledydd Prydain ac yn Ewrop, a'r bwriad yw rhoi gwobr am ddeuddeng mis i'r bwytai sy'n cydsynio â'r gofynion canlynol:

1. Safonau glanweithdra uchel
2. Gwneud llyfdd bwyta yn rhai 'Dim Ysmygu'
3. Cynnwys dewisiadau maethlon ac iachus ar y fwydlen

Y rhai cyntaf i ennill y wobwr hon oedd perchnogion:

a. Gwesty'r Royal Victoria, Llanberis

b. Plas Menai, Caernarfon

c. Adran Arlwyath, Ysbyty Gwynedd.

Cyflwynwyd y gwobrau gan Dai Davies, cyn-gôl-geidwad Cymru yng Nghanolfan Cyngor Chwaraeon Cymru, Plas Menai, ddydd Iau, Chwefror 6. Cyhoeddwyd yn swyddogol y cynllun hwn yng Nghymru yn y cyfarfod gwobrwyo.

Gall unrhyw fwyty gystadlu yn y gystadleuaeth hon, boed yn 'restaurant', caffi, ffreutur ffatri, gwesty, ysgol neu goleg, ac ati. Os cydsyniant â gofynion y gystadleuaeth byddant yn ennill y wobwr am ddeuddeng mis.

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres

Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati,

Peis, Rholiau Sosej,


Pasteiod, Teisennau Hufen,

Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS

1. Ewin aderyn (7)
5. Lle i goginio (5)
8. Llesmair (5)
9. Aderyn (7)
10. Gofid Tina yn troi'n ddieter (9)
12. Llanarmon-yn— (3)
13. Teithio ar draws (6)
14. Hedfan (6)
17. Oed cyn heddiw (3)
18. Rhown foliant (9)
20. Pethau mewn rhestr (7)
21. Dewi'n ffurfio'r gwahaniaeth (5)
23. Cosb ariannol (5)
24. Carolau'r gwyr doeth?

I LAWR

1. Heb fod ar eich ennill (5)
2. Ddim yma (3)
3. "Y gwyllt ... bersawr
Yr hen lesmeiriol baent " (7)
(Clychau'r Gog - RWP)
4. Credu (6)
5. Celfyddyd (5)
6. Llyfr defnyddiol ar gyfer gwneud
croesair! (9)
7. Gŵyl (7)
11. Un sy'n gwledda (9)
13. Cytuno (7)
16. Teithio mewn cerbyd (6)
18. Y rhan sy'n perthyn i Walia (5)
19. Dau na yn gwneud sŵn (5)

20. Ei liw sy'n ffurfio'r dyn! (3)

Cyfrif y llythrennau canlynol fel
UN llythren: ch, dd, ff, ng, ll, ph,
rh, th.

Gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf a
dynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i
law.

Anfonwch eich cynigion at Twrog
Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

ATEBION CROESAIR CHWEFROR

AR DRAWS: 1. Yncl Sam, 5. Anwes, 8.
Siomi, 9. Llanilar, 10. Niweidiol, 12.
Ein, 13. Testun, 14. Temlau, 17. Ati,
18. Gronynnau, 20. Estynodd, 21.
lechydd, 23. Thonau, 24. O'r diwedd.
I LAWR: 1. Ymson, 2. Clo, 3. Seiniau,
4. Milltir, 5. Annel, 6. Wal Berlin, 7.
Serennu, 11. Washington, 13.
Trafferth, 15. Erydiad, 16. Fforddio,
18. Genau, 19. Un dydd, 22. Chyw.

Enillydd: Mr Robert Williams, 5
Gwelfynydd, Llanrug.

**Cefnogwch
Ein
Hysbysebwy**

*Dyddiadur
y Mis*

MAWRTH

Sadwrn, 1: DEINIOLEN: Cinio Gŵyl
Ddewi Cangen Plaid Cymru ym
Mhlas Tan Dinas.

WAUNFAWR: Cangen Plaid Cymru
yn dathlu Gŵyl Ddewi yn Llety,
Caeathro.

Llun, 3: DEINIOLEN: Swper Gŵyl
Ddewi Sefydliad y Merched a'r
Henoed.

BETHEL: Cinio Blynnyddol y
Gymdeithas Lenyddol yn y Foelas,
Llanrug.

Mawrth 4: DEINIOLEN: Cyfarfod
Cyhoeddus yn y Ganolfan am 7.00
BETHEL: Clwb Bro Bethel.

Mercher 5: LLANBERIS: Noson Goffi
yn y Cinio am 6.30.

Iau 6: WAUNFAWR: Clwb Gwyrfa.
Sefydliad y Merched yn dathlu Gŵyl
Dewi yng nghwmni aelodau o
Gangen Pontrug.

LLANBERIS: Cinio Gŵyl Ddewi Clwb
yr Henoed yn y Fictoria.

Cinio Gŵyl Ddewi y
Gymdeithas Lenyddol yn y
Gwynedd.

Gwener 7: LLANBERIS: Te yr
Henoed.

YR ARDAL: Dydd Gweddi Byd Eang y
Chwiorydd.

WAUNFAWR: Clwb y Mamau yn
cynnal Arwerthiant yn y Ganolfan am
6.30. Yr elw tuag at y Ganolfan.

Sadwrn 8: YR ARDAL: Bore Coffi dan
nawdd Pwyllgor Merched Cangen
Arfon o Blaid Cymru yn y Llyfrgell
newydd, Caernarfon o 10.30 - 12.00.
Llun 10: WAUNFAWR: Swper y
Gymdeithas Lenyddol yng Ngwesty'r
Dingles, Dinas Dinlle.

LLANBERIS: Gyrfa Chwist dan
nawdd y Clwb Pêl-droed yn y
Ganolfan am 7.30.

Mawrth 11: LLANRUG: Merched y
Wawr - Sioe Ffasiynau Antur
Aelhaearn yn yr Ysgol Gynradd.

BETHEL: Merched y Wawr yn
ymweld â Changen Llanrug.

Mercher 12: LLANRUG: Plaid Cymru
- darlith gan Mr Robin Williams yn yr
Ysgol Gynradd am 7.30. Croeso i
bawb.

BETHEL: Merched y Wawr yn dathlu
Gŵyl Ddewi yng nghwmni Cantorion
Moreia.

Iau 13: DINORWIG: Y Gymdeithas
Lenyddol Undebol - Noson o Gawl a
Chân yn y Ganolfan am 7.00. Croeso
cynnes i bawb.

YR ARDAL: Clwb Eryri - y BBC yn
darlledu rhaglen radio 'Piniwn' yng
Ngwesty'r Gwynedd.

LLANBERIS: Y Cwmni Drama yn
perfformio 'Tywydd Mawr' yn
Neuadd yr Eglwys am 7.30.

LLANRUG: Clwb Blodau'r Grug.

Mercher 19: YR ARDAL: Cymdeithas
Hanes Bro'r Eco - sgwrs gan Mr
Dafydd Roberts, Amgueddfa Lechi
Gogledd Cymru yn Oriel Eryri,
Llanberis am 7.30.


Gwener 21: LLANBERIS: 'Bingo a
Bwyd' yn y Gwynedd am 7.30.

Te yr Henoed.
YR ARDAL: Ysgolion yn cau dros Wyl
y Pasg.

Sadwrn, 22: BETHEL: Cinio
Blynnyddol Clwb y Rhos yng Nghastell
Cidwm.

Llun, 24: Gyrfa Chwist yn y Ganolfan
am 7.30.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



**Antiques
Ivy Cottage
BETHEL**

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

**E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

**M. ROWLANDS
MONUMENTAL MASONS
LLANRUG**

Ffôn: Caernarfon 2898
(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic
gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

CHWARAEON

Y GOLOFN SNWCER

gan Aeron Jones

Gyda tîm Duon Deiniolen allan o'r cwpanau, mae'n rhaid iddynt wneud ymdrech go arbennig yn y Gynghrair. Ymatebodd y tîm yn dda drwy fod yn llwyddiannus mewn tair allan o bedair gêm. Mae tîm Gleision Llanrug yn ceisio dal eu gafael ar y gynghrair. Curodd y tîm un gêm allan o dair, ac un gêm gyfartal. Maent yn sefyll yn ail, dau bwynt tu ôl i dîm Crosville Caernarfon. Llongyfarchiadau iddynt ar gyrraedd yr wyth diwethaf yng nghystadleuaeth Gogledd Cymru, drwy guro tîm Bersham o Wrecsam, o bedair ffrâm i ddim.

Yn yr ail adran mae tîm Cochion Llanrug ar y brig ymhell o flaen y gweddill. Cafodd tîm Llanberis ganlyniadau da y mis hwn, ond mae'r ddau dîm o Ddeiniolen yn dynn ar eu sodlau, dri phwynt y tu

ôl. Esgyn yn araf mae'r ddau dîm o Fethel, gyda tîm Gleision Bethel yn cael y canlyniad gorau y mis hwn drwy gael gêm gyfartal gyda'r tîm ar frig yr adran sef tîm Cochion Llanrug.

Canlyniadau Mis Chwefror

ADRAN A

Gleision Llanrug

2-4 Llafur Llangefni

4-2 Ceidwadwyr Caernarfon (Gleision)

3-3 Crosville Caernarfon (Gleision)

Duon Deiniolen

4-2 Gleision Marbryn

4-2 Ceidwadwyr Bangor

5-1 Duon Groeslon

1-5 Llafur Llangefni

ADRAN B

Cochion Llanrug

4-2 Cochion Deiniolen

3-3 Duon Llanfair PG

3-3 Gleision Bethel

4-2 Duon Bethesda

Gleision Deiniolen

4-2 Cochion Marbryn

5-1 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)

4-2 Cochion Groeslon

3-3 Cochion Deiniolen

Cochion Deiniolen

2-4 Cochion Llanrug

1-5 Clwb Cymdeithasol Bangor

(Gleision)

2-4 Ceidwadwyr Felinheli (Gleision)

3-3 Gleision Deiniolen

Duon Bethel

5-1 Duon Bethesda

3-3 Nantlle Brown

3-3 Cochion Marbryn

4-2 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)

Gleision Bethel

4-2 Cochion Bethesda

5-1 Nantlle Gwyrdd

3-3 Cochion Llanrug

2-4 Clwb Cymdeithasol Bangor

(Gleision)

Duon Llanberis

5-1 Nantlle Brown

4-2 Cochion Marbryn

3-3 Ceidwadwyr Bangor (Gleision)

4-2 Cochion Groeslon

Y GYNGHRAIR

ADRAN A

Gleision Llanrug

Du Deiniolen

ADRAN B

Coch Llanrug

Du Llanberis

Coch Deiniolen

Glas Deiniolen

Du Bethel

Glas Bethel

Ch	En	Cyf	Coll	O	Bl	Yn	Er	+/-	Pt
19	15	1	3	76	38	+38	31		
19	10	3	7	64	50	+14	23		
22	15	6	1	90	42	+48	36		
22	11	5	6	76	56	+20	27		
22	10	4	8	71	61	+10	24		
21	9	6	6	66	60	+6	24		
22	9	5	8	71	61	+10	23		
21	9	2	10	60	66	-6	20		

PÊL-DROED YN GRYNO

CYNGHRAIR CAERNARFON

Mis llwm, a'r rhew yn cael y gorau ar gaeau'r ardal. Gyda Llyn Padarn wedi rhewi, syndod oedd gweld gêm ymlaen yn Llanberis ac yn Llanrug. Cyfnod y cwpanau yw'r rhan hwn o'r tymor, a gemau yn nhri cwpan y cynghrair yn disgwyl i gael eu chwarae. Methodd Llanrug a Harlech benderfynu pwy oedd yn camu 'mlaen i rownd nesaf cwpan Alves ar ôl chwarae gêm gyfartal (1-1) yn Llanrug. Yn y gynghrair, colli o 6-1 fu hanes Bethel gartref i dîm cryf Penrhyndeudraeth. Mae'r Penrhyn bellach ar frig y gynghrair gyda Llanberis.

Dyma'r gemau cwpan sydd i'w chwarae yn y dyfodol agos -

Cwpan Wil Evans

Llanberis v Bethel

Cwpan Alves

Llanrug v Harlech (i'w hail-chwarae)

Llanberis v UCNW

Bydd enillwyr y ddwy gêm hon yn cyfarfod ei gilydd yn y rownd

gyn-derfynol.

Cwpan Morris

Nantlle v Llanberis

Llanrug v Rangers

Mae'r gobaith am gwpan i'w hennill gan un o dimau'r fro yn parhau'n fyw. Pob hwyl iddynt yn y mis i ddod.

GALW I GARFAN CYMRU

Mae Malcolm Allen o Ddeiniolen wedi ei gynnwys yng ngharfan Ewrop. Mae hyn yn dilyn gwaharddiadau Mark Hughes o Manchester United. Dim ond deunaw oed yw Malcolm, ond y mae eisoes wedi chwarae tair gêm i dîm cyntaf Watford.

Roedd yr 'Eco' eisoes wedi mynd i'r wasg cyn i dîm Cymru gael ei ddewis ar gyfer y gêm gyfeillgar yn erbyn Saudi Arabia, ond roedd Malcolm yn y garfan. Gobeithio roi mwy o hanes y pêl-droediwr o Ddeiniolen pan fydd Cymru'n chwarae Uruguay yn Wrecsam yn ddiweddarach y tymor hwn.

LLWYDDIANT I GLWB CODI PWYSAU PŴER DINORWIG

Daeth nifer o lwyddiannau i ran y Clwb yn ystod y misoedd diwethaf. Ym mhencamwriaeth bechgyn ysgol Cymru daeth Haydn Williams yn gyntaf yn y dosbarth 67½ kg, a Jason Jones yn ail yn y dosbarth 60 kg. Roedd dros 70 o fechgyn yn cystadlu, a daeth Jason yn ail orau o'r holl gystadleuwyr a Haydn yn bedwerydd.

Enillwyd tystysgrifau efydd ac arian gan Rodney Collins a Medwin Jones, a thystysgrif efydd gan Christopher Allen a Malcolm Griffiths. Mae tystysgrif efydd i'w hennill am godi 3½ pwysau'r corff, a'r dystysgrif arian am godi 4½ pwysau'r corff.

Bu Len Jones (hyfforddwr) a Gerwyn Jones, y ddau o Ddeiniolen, ynghyd ag aelod arall o'r Clwb - Raymond Jones o Griccieth - yn cynrychioli tîm Gogledd Cymru mewn gornest yn erbyn y De. Er mai colli oedd hanes tîm Gogledd Cymru roedd yn

anrhydedd cael tri aelod o'r un clwb i gystadlu mewn tîm o saith.

Yn ystod y flwyddyn hefyd, bu Gerwyn Jones yn fuddugol mewn cystadleuaeth i eilyddion Cymru. Mae bechgyn sydd â'u diddordeb mewn campau eraill yn mynychu'r Clwb i ymarfer hefyd; ac un ohonynt yw Gareth Grindley, un o chwaraewyr snwcer gorau Cynghrair Bangor a'r Cylch.

Dymuna'r Clwb ddiolch yn arbennig i Mr W.J. Roberts, 59 Pentre Helen, Deiniolen a fu'n weithgar iawn gydol y flwyddyn yn casglu arian i gynnal y Clwb.



Haydn Williams yn codi'n y gystadleuaeth 67½ kg.



Jason Jones a ddaeth yn ail yng nghystadleuaeth 60 kg.



Rodney Collins, Medwin Jones a Christopher Allen.



Len Jones (hyfforddwr), Gerwyn Jones a Raymond Jones a fu'n cynrychioli tîm Gogledd Cymru.